

ISSN 2053-5171
Rhifyn 19
2022

Herio Materion Crefyddol

Francis Loftus

ar Y Salmau fel Arweiniad
i Fywyd Cristionogol

Joseph Powell

ar Ymgysylltiad Eschatolegol
Cristnogol â Llyfr y
Datguddiad: O'r Apocalyps i
ddiffyg Milflwyddiaeth

Wm. Andrew Schwartz

ar Diwinyddiaeth Proses-
Gysylltiedig

Jeff Astley

ar James Lovelock a
Damcaniaeth Gaia

Anthony Bash

ar Moesoldeb Maddeuant

Phra Nicholas Thanissaro:

ar Ymwbyddiaeth Ofalgar a'r
Teulu (*McMindfulness*)

Leslie J. Francis

ar Beth all Cyfrifiad 2021 ei
Ddweud wrthym *Mewn
Gwirionedd* am Gyfansoddiad
Crefyddol Cymru a Lloegr?

Herio Materion Crefyddol

Cefnog Astudiaethau Crefyddol Safon Uwcha thu hwnt

Rhifyn 19 2022

Cynnwys

Y Salmau fel Arweiniad i Fywyd Cristionogol Francis Loftus	2
Ymgysylltiad Eschatolegol Cristnogol â Llyfr y Datguddiad: O'r Apocalyps I ddiffyg Milflwyddiaeth Joseph Powell	8
Diwinyddiaeth Proses-Gysylltiedig Wm. Andrew Schwartz	15
James Lovelock a Damcaniaeth Gaia Jeff Astley	21
Moesoldeb Maddeuant Anthony Bash	29
Ymwybyddiaeth Ofalgar a'r Teulu (<i>McMindfulness</i>) Phra Nicholas Thanissaro	36
Beth all Cyfrifiad 2021 ei Ddweud wrthym <i>Mewn Gwirionedd</i> am Gyfansoddiad Crefyddol Cymru a Lloegr? Leslie J. Francis	43

Golygydd

Yr Athro Jeff Astley (Prifysgol yr Esgob Grosseteste, Prifysgol Durham)

Golygydd Cysylltiol

Phra Dr Nicholas Thanissaro (Ysgol Diwinyddiaeth Claremont, California, Prifysgol yr Esgob Grosseteste)

Golygydd Cymraeg a Golygydd Rheolaethol

Dr Tania ap Siôn (Prifysgol yr Esgob Grosseteste, Canolfan y Santes Fair, Canolfan San Silyn)

Ymgynhorwyr Golygyddol

Yr Athro Leslie J. Francis (Prifysgol yr Esgob Grosseteste)
Dr Ian Jones (St Peter's Saltley Trust)
Libby Jones (Canolfan San Silyn)
Yr Athro William K. Kay (Prifysgol Caer)
Yr Athro David Lankshear (Prifysgol yr Esgob Grosseteste)
Phil Lord (GWE)
Yr Athro Peter Neil (Prifysgol yr Esgob Grosseteste)
Yr Athro Stephen Parker (Prifysgol Worcester)
Y Gwir Barchedig Ddr Dr David Walker (Prifysgol yr Esgob Grosseteste)
Dyluniwyd gan Phillip Vernon
Cyfieithiad gan Sioned Jones

Herio Materion Crefyddol Religious Issues

Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn	St Peter's Saltley Trust	Canolfan San Silyn
Llys Onnen	Grays Court	Tŷ'r Coleg
Abergwyngregyn	3 Nursery Road	Rhes y Deml
Gwynedd	Edgbaston	Cymru,
LL33 0LD	Birmingham B15 3JX	Wales
	Telephone 0121 427 6800	LL13 8LY
E-bost: smc.taniaapsion@gmail.com	E-mail: director@saltleytrust.org.uk	E-bost: tania.apsion@bishopg.ac.uk
http://www.st-marys-centre.org.uk/	https://www.saltleytrust.org.uk/	https://stgilescentre.org/cy/

Caiff fersiwn Gymraeg *Herio Materion Crefyddol* ei noddi a'i reoli gan Ganolfan San Silyn Wrecsam – <https://stgilescentre.org/cy/>

Mae *Herio Materion Crefyddol* yn gyfnodolyn ar-lein, mynediad agored am ddim a luniwyd i gefnogi athrawon a myfyrwyr sy'n dilyn Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch, gan ddod ac ysgolheictod ac ymchwil diweddar a pherthnasol o'r Brifysgol i'r ystafell ddosbarth lefel A. Os oes unrhyw bynciau yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys yn y cyfnodolyn, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Y Salmau fel Arweiniad i Fywyd Cristionogol Francis Loftus

Mae'r erthygl hon yn cynnig cyflwyniad i'r Salmau a'u lle o fewn y traddodiad beiblaidd. Mae'n codi rhai materion ynghylch y ddealltwriaeth o Dduw sy'n deillio o'r Salmau, pa brofiadau crefyddol y gellir eu dimad ynddynt a sut y defnyddir eu hiaith grefyddol. Yna ceir esboniad manylach ar rannau o ddwy Salm a golwg ar y ffordd y mae Cristnogion yn defnyddio'r Salmau mewn addoliad a gweddi ar y cyd, ac a ydynt yn gwasanaethu fel canllaw ar gyfer bywyd Cristnogol.

Cysylltiadau â'r fanyleb:

*EDUQAS/CBAC/CBAC Adran 1, Opsiwn A Cristnogaeth: Thema 1C, y Beibl fel canllaw i fywyd ... ac fel ffynhonnell cysur ac anogaeth (gyda Salmau enghreifftiol)
SCOTTISH HIGHERS Adran 1: papur cwestiynau 1 crefydd y byd a moesoldeb a chred: Credoau am Dduw, Addoliad (mewn Cristnogaeth, Iddewiaeth)*

Y Salmau yn y traddodiad beiblaidd

Mae Llyfr y Salmau yn waith canonaidd o farddoniaeth, gweddi a chaneuon addoli. Dyma'r llyfr cyntaf yn y rhan 'Ysgrifau' o'r Ysgrhythrau Hebraeg (neu'r Hen Destament). Yn Hebraeg fe'i gelwir yn *Sepher Tehillim* (Llyfr Moliant), ac eto nid llyfr emynau yn unig mohono.

Mae Llyfr y Salmau yn cynnwys 150 o salmau unigol, wedi'u rhannu'n fewnol yn bum llyfr a all adlewyrchu'r posibilrwydd bod Llyfr y Salmau wedi'i ddwyn ynghyd o weithiau cynharach ar wahân.

Mae'n amhosibl dyddio Llyfr y Salmau,

gan fod ei gynnwys wedi'i ysgrifennu dros gyfnod hir o amser. Mae gan lawer o salmau deitlau sy'n nodi mai'r Brenin Dafydd (c. y ddegfed ganrif CC) oedd yr awdur, ond nid yw hyn yn cael ei dderbyn gan ysgolheigion modern. Yr hyn sy'n amlwg yw bod y salmau'n cael eu defnyddio wrth addoli yn y Deml ac mae ysgolheictod cyfoes yn priodoli cyfansoddiad llawer o'r salmau i urddau cantorion a cherddorion a fodolai yn Israel (I Cronicl 15-16).

Fel casgliad o sawl arddull ysgrifennu, ni ellir dosbarthu Llyfr y Salmau yn ei

Y Salmau fel Arweiniad i Fywyd Cristionogol

gyfanrwydd, gan fod llawer math o salmau o'i fewn. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- salmau diolchgarwch (e.e., Salmau 18, 30, 40),
- galarnadau (e.e., 22, 42, 43, 69),
- salmau gwledig sy'n aml yn gysylltiedig â'r cynhaeaf (e.e., 65, 67, 85),
- salmau sy'n gysylltiedig â choroni neu ben-blwydd (e.e., 2, 72),
- salmau doethineb, (e.e., 32, 34), a
- litwrgïau, yn aml gyda darnau cwestiwn-ac-ateb neu thema (e.e., 136).

Un nodwedd o bwys mawr yw bod y salmau yn rhoi cipolwg ar ddiwinyddiaeth yr Israeliaid (eu dealltwriaeth o Dduw) a'u haddoliad, yn gyhoeddus a phersonol, dros ganrifoedd lawer o gyfansoddiad, gan daflu goleuni ar ffydd y genedl dros yr amser hwnnw. Yn y traddodiad Cristnogol, mae Llyfr y Salmau yn dal i gael ei ddefnyddio fel ffynhonnell gweddi a syniadau am Dduw. Yn wir, y mae llawer o salmau wedi eu haddasu yn emynau.

Dealltwriaeth o Dduw yn Llyfr y Salmau

Daw llawer o ddelweddau o Dduw o Lyfr y Salmau. Un o nodweddion pwysicaf Duw yn y Salmau yw bod Duw yn cael ei ddarlunio fel y *creawdwr*. Mae Salm 8 yn un enghraifft o hyn. Mae'n cyfeirio at Dduw fel creawdwr popeth, ac yna'n disgrifio lle bodau dynol o fewn y greadigaeth yn y termau hyn:

Beth yw meidrol yn iti ei gofio, a'r teulu dynol iti ofalu amdano?

Eto gwnaethost ef ychydig islaw Duw, a'i goroni â gogoniant ac anrhydedd.

Rhoist iddo awdurdod ar waith dy ddwylo; a gosod popeth dan ei draed. (adn. 4-6)

Thema gysylltiedig yw bod Duw yn *hollalluog*. Mae Salmau 95-101 i gyd yn salmau sy'n moli Duw fel brenin a llywodraethwr. Pan ddarllenir y salmau hyn ochr yn ochr â Salmau 105 a 106, mae safbwynt cryf yn dod yn amlwg iawn mai Duw sy'n rheoli hanes Israel, a bod pechod yn arwain at ddioddefaint.

Mae'r syniad o Dduw *cyfiawnder* hefyd yn dod i'r amlwg yn Llyfr y Salmau. Yn Salm 33:4-6 gwneir yr haerriad bod Duw yn Dduw cyfiawnder ac mae hyn yn gysylltiedig â'r greadigaeth. Ond Duw fel Duw *trugarog* sydd yn sail i lawer o'r galarnadau; mae Salm 103:8 yn disgrifio Duw yn y termau hyn, 'Trugarog a graslon yw'r ARGLWYDD, araf i ddigio a llawn ffyddlondeb. Mae Duw hefyd yn Dduw sy'n cynnig *cysur* i'r rhai sydd mewn cyfyngder, fel yn Salm 46.

Fodd bynnag, efallai y bydd cwestiynau ac amheuon hefyd yn cael eu lleisio ar adegau, fel pan fo'r salmydd yn mynnu bod Duw wedi gadael y genedl. Yn y traddodiad Cristnogol, wrth i Iesu gael ei groeshoelio, mae'r Efengylau'n adrodd iddo ddyfynnu Salm 22:1 yn y foment cyn iddo farw, 'Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt wedi fy ngadael?' (Marc 15:34).

Iaith grefyddol y Salmau

Iaith credinwyr yw iaith Llyfr y Salmau. Mae Cristnogion wedi defnyddio iaith y salmau i fynegi eu disgrifiadau eu hunain o Dduw, yn enwedig trwy eiriau eu hemynau. Mae Salmau'n defnyddio trosiadau a chymariaethau nad ydynt yn llythrennol i alluogi'r darlennydd i ddeall cymeriad a gweithgaredd Duw.

Mae rhai o'r delweddau yn y Salmau yn mynegi grym Duw, boed hynny wedi'i enghreifftio trwy'r greadigaeth neu yn y ffordd y mae'r salmydd yn disgwyl i Dduw amddiffyn y genedl rhag eu gelynion. Felly, disgrifir Duw fel 'tarian' yn Salm 3:3; bydd yn amddiffyn y salmydd rhag ei elynion. Mae Duw hefyd yn cael ei

Y Salmau fel Arweiniad i Fywyd Cristionogol

ddarlunio fel un sy'n 'eistedd yn y nefoedd' (Salm 2:4), sy'n parhau i'r traddodiad Cristnogol lle bydd Iesu yn eistedd ar ddeheulaw'r Gallu (Marc 14:62). Mae Salm 23, mewn cyferbyniad, yn darlunio amddiffyniad Duw fel 'bugail' yn gofalu am ddefaid.

Yn Salm 36:6, disgrifir cyfiawnder Duw fel 'fel y mynyddoedd uchel' a'i farnau 'fel y dyfnder mawr'. Eto i gyd, mae gan Dduw dosturi 'fel y mae tad yn tosturio wrth ei blant' (Salm 103:13). Mewn delwedd arall, bydd Duw yn rhoi 'adenydd colomen' i'r salmydd (Salm 55:6-8), gan alluogi iddo ddianc i le diogel oddi wrth ei elynion.

Profiad crefyddol o fewn Llyfr y Salmau

Mae'r Hen Destament yn cyfleu nifer o weledigaethau o Dduw, er enghraifft pan mae Moses yn dod ar draws y berth sy'n llosgi (Exodus 3) ac yn clywed llais Duw. (Yn y traddodiad Iddewig mae llais Duw yn cael ei ystyried yn un o'r profion eithaf o fodolaeth Duw.)

Mae rhai salmau yn edrych am weledigaeth fel hyn o Dduw. Ceir un enghraifft o hyn yn Salm 17:15, lle mae'r awdur yn gobeithio cael gweledigaeth, sef 'gweld' wyneb Duw a 'gwedd' Duw (sylwch ar y trosiadau). Mae un arall yn Salm 27:4, lle mae'n gweddïo am gael 'edrych ar hawddgarwch yr ARGLWYDD'. Ond efallai fod math gwahanol o brofiad crefyddol (math o weld-fel?) yn cael ei awgrymu yn anogaeth trosiadol y salmydd, 'Profwch, a gwelwch mai da yw'r ARGLWYDD' (Salm 34:8).

Rhai sylwadau ar Salm 119 a Christnogaeth

Mae Salm 119 yn acrostig, lle mae pob adran yn dechrau gyda llythyren wahanol o'r wyddor Hebraeg. Mae wedi cael ei disgrifio fel enghraifft ryfeddol o ddealltwriaeth yr Israeliaid o Dduw.

Thema'r Salm hon yw Cyfraith (Torah) Duw. Defnyddir wyth gair yn y salm am gyfraith: gair, deddf, gorchymyn, rheolau, dyfarniad, argymhellion, ordinhadau a dysgeidiaeth. Gellid dosbarthu'r salm fel salm doethineb, sy'n rhoi cyngor i bobl ar sut i fyw eu bywydau.

Adnodau 9-16

Mae chwilio am ddoethineb, a dod o hyd i'r ffordd gywir o fyw, yn ymwneud yn y pen draw â dysgeidiaeth Duw. Mae hyn yn rhywbeth y mae'r awdur wedi mynd ar ei ôl, ac yma mae'n gofyn i Dduw sicrhau nad yw'n crwydro oddi wrth orchmynion Duw. Yn y traddodiad Efengylaidd mae yna ddigwyddiad lle mae dyn ifanc yn gofyn i Iesu beth sy'n rhaid iddo ei wneud i ennill bywyd tragwyddol. Ymateb cyntaf Iesu yw dweud wrtho am ddilyn y gorchmynion (Mathew 19:16-27).

Dywed awdur y salm fod llawenydd i'w ganfod mewn ufudd-dod i ddeddfau Duw, ymhell uwchlaw unrhyw lawenydd a geir trwy gyfoeth. Mae'r awdur hefyd yn cyfeirio at 'ffordd' Duw. Mae cysyniad y traddodiad Iddewig o *Halakha*, y corff cyfunol o gyfreithiau Iddewig, yn seiliedig ar y ferf Hebraeg sy'n golygu 'cerdded'. Yn yr un modd, roedd yr eglwys Gristnogol gynnar yn cael ei hadnabod fel 'Y Ffordd' ac yn Ioan 14:6 disgrifiodd Iesu ei hun fel 'y ffordd' at Dduw.

Adnodau 105-112

Yn y darn hwn mae'r awdur yn cyfeirio at air Duw fel 'goleuni i'm llwybr.' Mae'r syniad o Grist fel gair a goleuni Duw yn themâu allweddol yn Efengyl Ioan (Ioan 1:1-5; cyfeiriodd Iesu at ei hun fel goleuni'r byd yn Ioan 8:12).

Mae ymroddiad yr awdur yn y salm yn llwyr. Yn adnod 106 cawn gipolwg ar lw a dyngwyd gan y rhai a oedd yn addoli yn y Deml. Mynegir y gred glir y bydd Duw yn cynnal credinwyr beth bynnag a wna eu gelynion. Mae hyn yn cysylltu â phrofiad

Y Salmau fel Arweiniad i Fywyd Cristionogol

yr eglwys fore o gael ei herlid, a phrofiad llawer sy'n dal i gael eu herlid heddiw.

Syniad arall a fynegir yma yw bod barnau Duw yn cael eu hetifeddu ond yn dragwyddol, cysylltiad sy'n bwysig iawn yn y traddodiadau Iddewig a Christnogol. Mae cof yn elfen allweddol yn arferion crefyddol y ddwy grefydd.

Rhai sylwadau ar Salm 46 a Christnogaeth

Mae'r salm hon yn fwyaf adnabyddus fel ysbrydoliaeth emyn Martin Luther *Ein Feste Burg* (*Ein nerth a'n cadarn dŵr yw Duw*).¹ Roedd Luther yn ymateb i'r Pab, a oedd wedi dyfynnu Salm 74 fel teitl ei gylchlythyr am Luther, 'Arise Lord and Defend Your Cause'.

Mae Salm 46 yn salm a ysgrifennwyd gan rywun sy'n sicr y bydd Duw gydag ef beth bynnag sy'n digwydd. Fe'i disgrifiwyd fel emyn cymunedol neu 'salm o hyder'. Mae'r salm i'n hatgoffa mai Duw sydd â'r gofal mewn byd anhrefnus – tra bod teyrmasoedd y ddaear yn gwegian (adn. 6). Gall Duw hyd yn oed dawelu'r dyfroedd cynddeiriog a'r mynyddoedd sy'n ysgwyd, a'u troi'n afonydd bywyd a phreswylfeydd tawel. Y cyfan sydd raid i'r addolwr ei wneud yw bod yn llonydd a chydabod presenoldeb Duw 'gyda ni' (adn. 7).

Mae'r ddelwedd o Dduw fel *noddfa* (adnod 1, a ailadroddir yn adn. 7 ac 11) yn gyffredin yn y Beibl Hebraeg, mae'n cael ei defnyddio 94 o weithiau. Mae'r cyfeiriad at Dduw yn 'byw' yn Jerwsalem (adn. 5) yn mynegi'r cysyniad bod Duw rywsut gartref yn y Deml.

Mae'r salmydd yn gwahodd pawb i 'ddod i weld' (adn. 8) gweithredoedd Duw, fel yn Ioan 1:39. Gwahoddodd Iesu y disgyblion newydd i 'ddod i weld' (cymharer hefyd Mathew 11:4-6//Luc 7:22-23).² Yn adn. 10, dywedir felly wrth bobl am roi'r gorau i'r hyn y maent yn ei wneud a chanolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig – Duw.

Dealltwriaeth a defnydd Cristnogol o'r Salmau

Yn y Testament Newydd mae llawer o gyfeiriadau at y Salmau. Maen nhw'n sail i ddiwinyddiaeth Iesu fel ffigwr sy'n achub pobl rhag eu pechodau ac yn addo ffordd o fyw sy'n rhoi strwythur iddyn nhw. Ceir un enghraifft yn I Pedr 3:10-12 sy'n dyfynnu Salm 34:12-16, gan bwysleisio'r angen i ddilyn y gweithredoedd cywir a 'throi oddi wrth ddrygioni'. Roedd y Salmau, fel testunau eraill o'r Hen Destament, yn cael eu defnyddio gan yr eglwys gynnar fel ffynhonnell i ddangos mai Iesu oedd y Meseia y proffwydwyd ei fod yn dod. Dywed Salm 2:7, Fy mab wyt ti, myfi a'th genhedlodd di heddiw.' Mae'r testun hwn yn cael ei ddyfynnu yn yr Efengylau Synoptig (Marc 1:11 a rhai tebyg) i gefnogi'r honiad mai mab Duw oedd Iesu (cymharer Marc 1:1; gweler hefyd Ioan 1:34). Yn Actau 13:33, mae Paul yn dyfynnu'r adnod hon yng nghydestun atgyfodiad Iesu; fe'i dyfynnir hefyd yn Hebreaid 1:5 a 5:5.

Ystyrid hefyd fod y Salmau yn rhagfynegi agweddau ar fywyd Iesu. Felly, mae Salmau 72:10-11 a 15 yn cyfeirio at frenhinoedd yn offrymu anrhegion ac yn ymostwng gerbron brenin Israel, thema a welir eto yn ymweliad y Seryddion â'r baban Iesu ym Methlehem (Mathew 2:1-9; mewn traddodiad Cristnogol diweddarach gelwir y seryddion yn 'frenhinoedd'). Yn ystod temtasiynau Iesu (Mathew 4:6//Luc 4:10-11) mae'r diafol yn dyfynnu Salm 91:11-12 i Iesu,

¹ Dywedir weithiau i Salm 46 gael ei chyfieithu gan Shakespeare (neu un o'i ddilynwyr) ar gyfer y King James' Bible, ac iddo wneud y cyfieithiad ar ei benblwydd yn 46 oed. Tybir iddo 'adael ei farc' ar y salm, oherwydd mai 'ysgwyd' yw chweched gair a deugain y Salm a'r chweched gair a deugain o'r diwedd yw 'gwaywffon'! Fodd bynnag, roedd fersiwn KJV o'r Salmau yn seiliedig yn bennaf ar y cyfieithiad gan Miles Coverdale.

² Cymharwch y math o math o brofaid crefyddol gweld-fel a grywybyllir uchod.

Y Salmau fel Arweiniad i Fywyd Cristionogol

‘Oherwydd rhydd orchymyn i’w angylion... byddant yn dy godi ar eu dwylo rhag iti daro dy droed yn erbyn carreg.’

(Cofiwch hefyd y defnydd o Salm 22:1 ar wefusau Iesu yn ei groeshoeliad, a ddyfynnir uchod.)

Mae Cristnogion wedi mabwysiadu Llyfr y Salmau ac mae wedi bod yn ganolog i’w haddoliad yn aml. Felly, yng ngwasanaethau Anglicanaidd y Cymun Bendigaid a’r Foreol a’r Hwylol Weddi gosodir salm i’w defnyddio bob amser. Mae cymunedau Cristnogol eraill wedi mabwysiadu eu patrymau eu hunain ar gyfer defnyddio’r salmau. Efallai mai’r defnydd Cristnogol mwyaf adnabyddus o salm fel sail i emyn yw ‘Yr ARGLWYDD yw fy Mugail’, addasiad o Salm 23. Ar lefel fwy personol, gall y Salmau weithredu fel fframwaith ar gyfer gweddi a myfyrdod. Mae John Goldingay (2013, tt. 3-4) yn rhestru pedair ffordd y gall Cristnogion ddefnyddio Llyfr y Salmau: i

ddweud wrth Dduw, ‘Rwyf ti’n wych’; i ddweud ‘help!’ pan fyddant yn teimlo’n anobeithiol; i ddweud wrth Dduw, ‘Rwy’n ymddiried ynot’, yn enwedig mewn amseroedd tywyll ac, yn olaf, i ddweud ‘diolch’ pan fyddant yn teimlo bod Duw wedi eu helpu mewn rhyw ffordd.

Disgrifiodd yr awdur Cristnogol cynnar, Athanasius (293-373), Lyfr y Salmau fel ‘crynhoad o’r ysgrhythurau cyfan’ a disgrifiodd Basil o Gesarea (330-79) ef fel ‘casgliad o bob diwinyddiaeth’. Yn ddiweddarach, disgrifiodd diwinydd y Diwygiad Martin Luther (1483-1546) y llyfr hwn fel ‘Beibl bach’. Daeth y diwinydd a’r merthyr o’r Almaen, Dietrich Bonhoeffer, a bregethodd ar y salmau yn y 1930au a’r 1940au i’r casgliad: ‘Nid oes un manylyn o dduwioldeb ac annuwioldeb yr eglwys Gristnogol, na cheir yno’. Aeth ymlaen i ysgrifennu bod astudio’r Salmau yn ‘daith ryfedd o i fyny ac i lawr, syrthio a chodi, anobaith a dyrchafiad’ (Bonhoeffer, 2001, t. 8).

Geirfa

canonaidd: Llyfr a gynhwysir yn y Beibl.

galarnad: Salm sy’n mynegi poen unigol neu boen y genedl.

trosiad: ffigur ymadrodd lle mae un peth yn cael ei ddisgrifio yn nhermau peth arall.

cyffelybiaeth: ffigur ymadrodd sy’n cymharu dau beth, a gyflwynir yn aml gan y geiriau ‘fel’ neu ‘megis’.

doethineb: Math o ysgrifennu a geir yn y traddodiad Iddewig (e.e., Diarhebion, Pregethwr, Job) sy’n amrywio o ddywediadau bachog ar ymddygiad doeth i fyfyrdodau dwfn a dadleuol ar bynciau megis drygioni a bodolaeth.

Cyswllt rhyngrwyd

https://www.biblestudyguide.org/comment/calvin/comm_vol12/html/xxxvi.htm (Mae hwn yn cynnwys rhestr o'r manau lle defnyddir y Salmau yn y Testament Newydd)

Pwyntiau trafod

1. Mae'r Salmau yn ystyried Duw fel creawdwr a chynhaliwr. A yw cred mewn Duw greawdwr yn creu problemau i'n dealltwriaeth o'r cysyniad o ewyllys rydd?
2. Gan gyfeirio at Salm 119, trafodwch a yw gwneud y peth iawn yn fater o ddilyn y rheolau yn unig.
3. 'Y mae Duw yn noddfa ac yn nerth i ni, yn gymorth parod mewn cyfyngder' (Salm 46:1). A ydych yn cytuno â'r datganiad hwn? Yn eich ateb rhwch ddadleuon o blaid a dadleuon yn erbyn, yna dewch i gasgliad rhesymegol.
4. Sut gallai Cristnogion yn yr 21ain ganrif ddefnyddio'r Salmau i ddyfnhau eu ffydd? Pa broblemau y gallent eu hwynebu wrth wneud hynny?

Cyfeiriadau a darllen pellach

Barton, J. (2019). Poems and Psalms. In his *A history of the Bible. The book and its faiths* (pp. 112-141). London: Allen Lane.

Bonhoeffer, D. (2001). *My soul finds rest in God alone* (translated by E. Robertson). Guildford: Eagle Publishing.

Dawes, S. (2010). *The Psalms*. London: SCM Press.

Goldingay, J. (2013). *Psalms for everyone, part 1, Psalms 1-72*. London: SPCK.

Goldingay, J. (2014). *Psalms for everyone, part 2, Psalms 73-150*. London: SPCK.

Mae Francis Loftus yn offeiriad Anglicanaidd ac yn brifathro wedi ymddeol. Ar hyn o bryd mae'n fyfyrwr doethuriaeth ym Mhrifysgol Bishop Grosseteste, Lincoln.

Ymgysylltiad Eschatolegol Cristnogol â Llyfr y Datguddiad: O'r Apocalyps i ddiffyg Milflwyddiaeth

Joseph Powell

Mae Llyfr y Datguddiad yn cynnig rhai o'r darluniau mwyaf graffig o farn danllyd a osodwyd i ddymchwel y ddynoliaeth ar bwynt amhenodol yn y dyfodol. Mae'r delweddau hyn yn ddisgrifiad byw o'r cyd-destun y deilliodd y Datguddiad ohono ac maent wedi cyflwyno llawer i Gristnogion yn y canrifoedd dilynol i'w ystyried ynglŷn â sut i'w perthnasu â'u hoes eu hunain. Mae'r erthygl hon yn edrych ar y cyfnod hwn pan ymddangosodd y Datguddiad a'r dehongliadau dilynol ohono.

Cysylltiadau â'r fanyleb:

CBAC / WJEC / EDUQAS Uned 6: Astudiaethau Testunol (Testament Newydd) Thema 4: Llenyddiaeth y Testament Newydd – Apocalyptaid; (perthnasol hefyd i?) Uned 1, Opsiwn A Cristnogaeth: Thema 1C, y Beibl fel canllaw ar gyfer bywyd ... ac fel ffynhonnell o gysur ac anogaeth

SCOTTISH HIGHERS Papur Cwestiwn 1, Crefydd y Byd: Cristnogaeth, Credoau

Cyflwyniad

Er ein bod bellach yn byw mewn cyfnod lle gallai'r apocalyptaid deimlo ychydig yn nes, gyda delweddau rheolaidd o danau gwyllt, llifogydd a sychder yn llenwi ein sgriniau teledu, a'r gobaith trist o ragor i ddod, mae Cristnogion trwy gydol hanes wedi ceisio mynd i'r afael â'r posibilrwydd o apocalyps wedi'i ddeddfu'n ddwyfol a'r hyn y gallai ei olygu i ddynoliaeth. Fel unig destun apocalyptaid canonaidd y Testament Newydd i lawer o grwpiau Cristnogol, mae Llyfr y Datguddiad wedi bod yn brif fodd o ysbrydoliaeth yn hyn o beth.

Ond beth mae ei gynnwys hynod fywiog, hyd yn oed graffig, yn ei ddweud wrthym am y cyd-destun yr ymddangosodd ohono? A sut mae Cristnogion eraill wedi ceisio ei ddehongli mewn perthynas â'u cyd-destunau ymryson eu hunain?

Llyfr y Datguddiad

Mae'r llyfr hwn yn y Testament Newydd yn cynnig ffynhonnell hynod rymus o ddelweddaeth eschatolegol i Gristnogion. Mae dyddiad ac awduraeth y Datguddiad ill dau yn destun dadl ysgolheigaidd (Osborne, 2002, tt. 2-10), gyda'r cyntaf

Ymgysylltiad Eschatolegol Cristnogol â Llyfr y Datguddiad

yn aml yn cael ei gasglu gan ysgolheigion o gyfeiriadau mewnol o fewn y testun yn hytrach na dyddio llawysgrifau. Mae hyn yn arwain rhai i gynnig bod dyddiad ei ysgrifennu tua 95 CC, tua diwedd teyrnasiad cymharol hirfaith yr Ymerawdwr Rhufeinig honedig ddidostur, Domitian. Roedd Domitian yn llywyddu polisi crefyddol domestig a welodd yr Ymerodraeth yn fwyfwy pendant yn ei hymdrechion i sefydlu'r pantheon Rhufeinig, a'r ymerawdwr fel amlygiad cwbl ddwyfol ohono, fel yr unig ffurf ddilys o addoliad ysbrydol, yn wyneb cystadleuaeth gynyddol gan fodolau eraill, gan gynnwys Cristnogaeth.

Disgrifir hyrwyddo'r math hwn o 'addoliad ymerawdwr' yn aml fel un a gyrhaeddodd ei uchafbwynt o dan Domitian, yr honnir iddo fynnu cael ei gyfarch fel *dominus et deus*, 'Meistr a Duw, gan ei ddeiliaid teyrngar (Galimberti, 2016, t. 101). O ganlyniad, roedd grwpiau, mudiadau ac unigolion a oedd yn gwrthod ymgrymu i'r grefydd wladwriaethol hon yn amlwg iawn ar radar yr awdurdodau imperialaidd, a ddisgrifir gan ffynonellau bron yn gyfoes fel Eusebius a Pliny yr leuaf fel rhai a gymerodd ran mewn ymgyrch o erledigaeth yn erbyn y cymunedau Iddewig a'r rhai Cristnogol newydd. I'r cymunedau hyn, cyplyswyd y grym allanol tra-arglwyddiaethol hwn â phroses o fewnsyllu athronyddol. Ar ôl croeshoeliad Iesu tua 30 OC disgwyliad llawer o Gristnogion cynnar oedd y byddai Crist yn dod at y ddynoliaeth eto a bod hyn i'w ragweld yn fuan. Wrth i amser fynd yn ei flaen, fodd bynnag, daethant i gredu llai fod hyn ar fin digwydd. Wrth i'r rhai oedd yn adnabod Iesu ddechrau marw a'r eglwys yn cael ei throsglwyddo i'w holynwyr ysbrydol, dechreuwyd ystyried ail ddyfodiad a allai fod yn 'fuan' yn hytrach nac 'yn awr'. Trwy'r broses hon, daeth eschatoleg

Gristnogol yn hydrin, yn barod i gael ei siapio gan ei meddylwyr a'i hysgrifenwyr cynharaf.

Mae Datguddiad yn ymdrech helaeth yn hyn o beth ac mae'n ymddangos ei fod yn cynrychioli amlygiad o'r grymoedd mewnol ac allanol hyn. Ynndo, mae ei awdur yn ceisio mynd i'r afael â'r hyn y mae poen a dioddefaint yn enw Crist yn ei olygu ac i ble y gallai arwain yn y pen draw.

Wedi'i ysgrifennu mewn arddull sy'n gyfarwydd iawn ar unwaith i'r rhai yn y gymuned sy'n gyfarwydd â phroffwydoliaeth apocalyptiaidd Iddewig, fel yr un a welwn heddiw yn Llyfr Daniel¹ agorir y testun gan awdur sy'n disgrifio'i hun yn syml fel 'loan'.² Mae loan yn gosod naws eschatolegol ar unwaith wrth hysbysu'r darllenwyr fod y testun a ganlyn yn gosod allan 'y pethau y mae'n rhaid iddynt ddigwydd ar fyrder (1:1) wrth iddo gyfeirio ei gynnwys at 'y saith eglwys yn Asia' (1:4), sef 'Ephesus, Smyrna, Pergamus, Thyatira, Sardis, Philadelfia a Laodicea' (1:9), sydd wedi'u gwasgaru yn yr hyn sydd heddiw yn Orllewin Twrci. Yna mae'n mynd ymlaen i gyflwyno'i hun fel un 'sy'n cyfranogi gyda chwi o'r gorthrymder a'r frenhiniaeth a'r dyfalbarhad sydd i ni yn Iesu' ac sydd wedi'i alltudio i ynys Patmos am bregethu am Grist (1:9). Mae anerchiad loan i'r eglwysi hyn a'i wybodaeth amlwg iawn o'u haddoliad, ynghyd â'i uniaethu â nhw fel un sydd hefyd wedi cael ei erlid, yn

¹ Mae Mounce, 1997 yn gywir yn nodi gwahaniaethau pwysig rhwng Datguddiad a'r llenyddiaeth flaenorol hon, fodd bynnag, sef brys galwadau'r Datguddiad am edifeirwch a'i 'harfer o adrodd gweledigaethau yn syml a gadael y dasg ddeongliadol i'r darlennydd yn lle cyflenwi tiwtor nefol' (t. 7).

² Gallai symlrwydd adnabyddiaeth yr awdur awgrymu y byddai darpar gynulleidfaoedd yn gwybod yn syth pa 'loan' oedd hwn. Ond nid felly yr oedd yn achos llawer o gynulleidfaoedd ac ysgolheigion sydd ers hynny wedi dadlau ai loan yr Apostol yw'r 'loan' hwn neu'n ceisio ymddangos felly.

Ymgysylltiad Eschatolegol Cristnogol â Llyfr y Datguddiad

awgrymu bod y rhain yn eglwysi yr oedd yr awdur yn gyfarwydd iawn â nhw (efallai fel eu hesgob neu ryw awdurdod llywyddol arall) a hefyd bod Cristnogion cynnar ar gyrion pellaf yr Ymerodraeth i bob golwg yr un mor agored i niwed yn eu haddoliad â'r rhai oedd yn cael eu herlid yn yr un modd yn Rhufain. Mae ymateb loan i'r adfyd a ddaeth i'w ran ef ac i'r eglwysi sydd fwyaf annwyl ganddo yn cyflwyno rhai o'r darluniau mwyaf byw ac yn aml hynod graffig o ddiwedd sy'n dal i ddod 'yn fuan': amlinelliaid swreal, hunllefus yn aml, o ddioddefaint dwyfol, barn, ac, yn y pen draw, prynedigaeth.

Mae'r erledigaeth a wynebir yn y presennol, yma yn nwylo'r Ymerodraeth Rufeinig, i'w gweld fel rhagflaenydd barn a fydd dod yn fuan, pan fydd pob grym cosmig gorchfygol yn dod â dial tanllyd i'r ddaear, a lle bydd ymerodraethau yn chwalu. Dim ond y gwirioneddol ffyddlon fydd yn cael eu cadw. Wrth i hyn fynd rhagddo, mae defnyddiau mwy cynnil ond helaeth o rifoleg yn sefyll ochr yn ochr â disgrifiadau o fynyddoedd yn 'llosgi â tân' ac yn cael eu taflu i'r môr (8:8-9),³ artaith dirdynol yn nwylo locustiaid tanddaearol gyda gallu 'tebyg i'r gallu sydd gan ysgorpionau'r ddaear' (9:3-5) a delweddau sydd ers hynny wedi dod yn gyfarwydd mewn diwylliant eang megis 'Pedwar Marchog yr Aopcalyps' ac 'Armagedon'.⁴

Mae'r cyfnod hwn o ddioddefaint a dinistr aruthrol yn cilio yn y pen draw wrth i Iesu ddod i deyrnasu ar y ddaear am 'fil o flynyddoedd', ochr yn ochr â'r rhai 'a gafodd eu dienyddio oherwydd eu tystiolaeth am Iesu ac oherwydd gair Duw' a'r rhai sydd wedi dioddef fel loan a'r 'eglwysi yn Asia', a fydd yn ôl pob golwg yn cael eu hatgyfodi fel 'offeiriaid Duw a Christ' (20:4-6). Ar ôl hyn, bydd Iesu yn sefydlu 'nef newydd', 'daear newydd' a 'Jerwsalem newydd', 'yn disgyn o'r nef oddi wrth Dduw' (21:1-2).

Yna mae marwolaeth yn peidio â bod ag unrhyw bŵer dros ddynoliaeth (21:4), ac 'ni fydd dim mwyach dan felltith neu'n bechadurus yno mwyach' (22:3). Terfyna loan trwy ddyfynnu sicrwydd Crist, 'Ac wele, yr wyf yn dod yn fuan!' (22:7). Gan orffen fel y dechreuodd, mae'r llyfr eto'n cynnig cipolwg ar yr ymdeimlad hwn o eschatoleg symudol tuag at iachawdwriaeth 'yn fuan': un sy'n annog y rhai sy'n edrych o gwmpas am arwyddion, yn ogystal â'i gyd-erlidwyr, i ddal eu tir a chadw'r ffydd.

Ond sut byddai cymunedau Cristnogol y tu hwnt i gyd-destun gwreiddiol y Llyfr yn ymateb i'w gynnwys graffig, a haniaethol yn aml?

Milflwyddiaeth a dim milflwyddiaeth

Er ei bod yn bosibl mai'r disgrifiadau o heidiau annirnadwy a ffenomena goruwchnaturiol sydd fwyaf amlwg a thrawiadol yn nhudalennau'r Datguddiad, mae disgrifiad loan o 'deyrnasiad mil o flynyddoedd' a'i ystyron a'i amlygiadau posibl wedi profi'r un mor drawiadol i lawer o ddiwinyddion Cristnogol dros y canrifoedd. Mae cwestiynau wedi'u gofyn a allai disgrifiadau arallfydol a rhyfeddol loan gyfeirio at gyfnod llythrennol o amser ar y ddaear, lle gallai'r farn dreisgar hon o dan Iesu fel brenin daearol ddatblygu, neu a ddylem yn lle hynny geisio ystyried rhywbeth mwy ffigurol. Ymhellach, sut mae disgrifiadau o boenyddio treisgar fel hyn yn cyd-fynd ag esiampl holl-gariadus Crist? Ac a yw teyrnasiad daearol, ac atgyfodiad corfforol y saint, hyd yn oed yn angenrheidiol i roi barn gyfiawn?

³ Canlyniad hyn yw marwolaeth 'traean o'r creaduriaid byw yn y môr', yn ogystal â 'traean o'r llongau' yn cael eu dinistrio.

⁴ Mae cyfeiriad gwreiddiol loan at Armagedon (16:16) yn dynodi man, o bosibl y mynyddoedd neu'r bryniau o amgylch dinas Megido yn nheyrnas hynafol Israel, lle bydd yr etholedig rai yn cael eu casglu a'u hachub.

Ymgysylltiad Eschatolegol Cristnogol â Llyfr y Datguddiad

Bu dadl frwd ar yr ystyriaethau hyn gan y 'tadau eglwysig' cynnar a geisiai weld gwerth y Datguddiad ynghyd â'i ddisgrifiadau o deyrnasiad mil o flynyddoedd, cred a ddaeth i gael ei hadnabod fel *chiliasm* neu'n fwy cyffredin heddiw *milflwyddiaeth*.⁵ Tra bod barn y rhai a oedd yn nes at yr amser y cafodd ei ysgrifennu, gan gynnwys Irenaeus a Tertullian, yn dal safbwynt chiliastig, roedd eraill yn anghytuno â llyfr loan yn ei gyfanrwydd. Felly, derbyniodd Eusebius o Cesarea y Datguddiad i'r canon 'gyda pheth anfodlonrwydd' a gwrthododd Cyril o Jerwsalem ef yn llwyr (Backus, 1998, t. 651). Roedd rhai, fel Origen, yn dadlau dros ddehongliad alegoriaidd ar y Datguddiad, ac ar y Beibl yn ehangach. Ychwanegodd eraill, megis Dionysus o Alexandria, disgybl i Origen, at ei amheuaeth ynghylch ei gynnwys, amheuo ynghylch awduraeth y llyfr, gan ddweud ei bod yn annhebygol mai'r Apostol loan a'i hysgrifennodd.

Efallai mai'r dylanwad mwyaf yn natblygiad safbwyntiau tuag at filflwyddiaeth a'i thaith i'r presennol, fodd bynnag, oedd rhywun a oedd wedi bod yn perthyn i'r ddwy ochr. Roedd Awstin o Hippo, diwinydd systematig a chyd-dad eglwysig, eisoes wedi ystyried achos milflwyddiaeth, yn benodol safbwynt 'cynfilflwyddiant' y byddai Crist yn datgan dyfodiad y mileniwm, fel yr un mwyaf argyhoeddiadol (*The city of God*, argraffiad 2009, t. 665). Fodd bynnag, byddai rhwyg seismig yn dod i Awstin a phawb o fewn yr Ymerodraeth Rufeinig, oedd bellach yn dadfeilio, pan gafodd hen galon y gyfundrefn imperialaidd hon, 'Dinas Dragwyddol' Rhufain, ei hysbeilio gan Visigothiaid paganaidd yn 410. Er bod y digwyddiad hwn wedi bod yn ergyd fawr i gyfreithlondeb gwleidyddol yr Ymerodraeth a'i gwarant bendant o ddiogelwch i'w dinasyddion, daeth hefyd

ag oblygiadau ysbrydol mawr.

Ers tröedigaeth yr Ymerawdwr Cystennin i Gristnogaeth tua 312, roedd y ffydd wedi tyfu'n gyson ymhlith y boblogaeth gyffredinol a phobl fawr yr Ymerodraeth, gan arwain at 'Orchymyn Thesalonica' yn 380 pan ddatganodd yr Ymerawdwr Theodosius I mai Cristnogaeth, ac yn benodol Cristnogaeth Gatholig Nicene, oedd 'eglwys wladol yr Ymerodraeth Rufeinig'. Gydag ysbeilio Rhufain yn digwydd ond ddeng mlynedd ar hugain ar ôl hyn, daeth nifer i gredu bod llwyddiant eu goresgynwyr paganaidd i raddau helaeth i'w briodoli i gefnu ar y pantheon Rhufeinig o blaid Cristnogaeth. Daeth ymateb Awstin i'r cyhuddiad hwn, sef ymgais i dawelu nerfau Cristnogol, ar ffurf un o'r casgliadau mwyaf systematig a dylanwadol o feddwl diwinyddol Cristnogol, ei *ddinas Duw*. Wrth ei graidd ceisiodd Awstin ddangos, er y gall ymerodraethau a gwareiddiadau daearol fethu, fel yn wir yr oedd loan wedi gobeithio a rhagweld, byddai 'Dinas Dduw' bob amser yn trechu yn y diwedd, ac y byddai dynoliaeth yn y pen draw yn cymryd ei lle haeddiannol mewn nefoedd annaearol.

Mae'r craidd hwn i'w weld yn amlwg yn y modd y mae Awstin yn ymdrin â milflwyddiaeth. Yma mae'n haeru fod y rhai sydd wedi bod yn pleidio'r athrawiaeth hon wedi canolbwyntio'n llwyr ar ei goblygiadau daearol, gyda theyrnasiad daearol yn cynnig y posibilrwydd o ennill 'pleser' yn ein ffurf gorfforol bresennol. Mae'n dirmygu Cristnogion sy'n 'haeru y caiff y rhai a atgyfodant fwynhau gwleddoedd cnawdol gormodol, wedi eu llaweroedd o gig a diod'. Mae hyn nid yn unig yn bygwth 'syfrdanu teimlad y cymedrol ond mae'n mynd mor bell â 'rhagori ar fesur

⁵ O'r Lladin *mille* a Groeg *chilioi*, mil.

Ymgysylltiad Eschatolegol Cristnogol â Llyfr y Datguddiad

hygoledd' (Awstin, 2009, t. 665). Yn hytrach, y mae Awstin yn pleidio ei safle, y gwir 'ddealltwriaeth', fel un sy'n gweld teyrnasiad Crist ar y ddaear fel un a fu gyda'i ddyfodiad *cyntaf*: yn yr hwn y mae'r eglwys yn awr yn teyrnasu yn oruchaf ac yn gwneud hynny naill ai am 'fil o flynyddoedd, neu'r holl flynyddoedd sydd i fynd heibio hyd ddiwedd y byd' (Awstin, 2009, t. 667), pryd bydd pawb yn preswyllo yn y nefoedd. Ni fyddai unrhyw blâu llythrennol, gwaedlyd na digwyddiadau difodiant torfol, na gwleddoedd 'cnawdol' yn y byd hwn.

Roedd safbwynt Awstin, a fyddai'n cael ei alw'n 'ddiffyg milflwyddiaeth', (*amillennialism*)⁶ yn argyhoeddiadol iawn ac ymhen amser byddai'n cael ei fabwysiadu'n eang gan eglwysi mwyaf y byd. Heddiw, mae ganddo safle canolog yn yr Eglwys Uniongred Dwyreiniol, Catholig, Anglicanaidd, Methodistiaidd a Lutheraidd.

Tuag at y cyfnod modern

Felly ble mae hyn yn gadael milflwyddiaeth heddiw?

Yng Ngorllewin Ewrop, daeth y Diwygiad Protestannaidd â sêl bendith pellach i ddiffyg milflwyddiaeth ymhlith ei feddylwyr mwyaf dylanwadol. Mae Cyffes Augsburg, prif ddogfen ffydd yr Eglwys Lutheraidd, yn cynnwys ynddi 'gondemniad' eglur o'r safbwynt 'cyn atgyfodiad y meirw, bydd y Duwiol yn meddiannu teyrnas y byd' (Schmid, 2008, t. 650). Ysgrifennodd John Calvin hefyd yn ddirmygus am y 'chiliasts' a 'oedd yn cyfyngu teyrnasiad Crist i fil o flynyddoedd'. 'Mae eu ffuglen nhw', mae'n wfftio, 'yn rhy blentynnaidd naill ai i angen neu i fod yn werth ei gwrthbrofi (*Institutes*, 3, 25.5).

Fodd bynnag, ni ddaeth monopoli ysbrydol i'r amlwg o'r datganiadau hyn. O fewn Protestaniaeth, wrth iddi ddatblygu gydag amheuaeth gynhenid o

ganologrwydd athrawiaethol, dechreuodd amrywiaeth y grwpiau ysbrydol o dan ei hymbarél dyfu. Cyflymodd y cyflymder hwn i'r ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif trwy dwf grwpiau Piwritanaidd ac 'anghydffurfiol' neu 'eglwysi rhydd' a oedd ag amrediad eang o safbwyntiau ar filflwyddiaeth. Byddai Gogledd America yn dod i chwarae rhan arbennig o amlwg yn hyn. Yn ogystal â gwasanaethu fel lloches i lawer o'r rhai a oedd yn ceisio ymreolaeth grefyddol yn ei dyddiau cynnar, byddai'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gweld ffurfio o fewn ei ffiniau grwpiau milflwyddol Tystion Jehofa ac Eglwys Adfentydd y Seithfed Dydd.⁷ Yn ddiweddarach, byddai 'Cynhadledd Darogan Niagara' yn dod ag amrywiaeth o Eglwysi Protestannaidd ynghyd i ystyried materion eschatoleg, gan gyhoeddi 'Credo Niagara' ym 1878 a dystiodd 'y daw'r Arglwydd Iesu yn bersonol i gyflwyno'r oes filflwyddol ... a bydd y ddaear yn llawn o wybodaeth yr Arglwydd' (Stone, 2008, t. 508). Gwelodd canol yr ugeinfed ganrif hefyd ymdeimlad cynyddol o agosrwydd i rai, gyda Thystion Jehofa yn rhagweld y gallai 1975 ddod â mileniwm daearol (Singelenberg, 1989, tt. 23-26), tra nododd yr efengylwr Americanaidd Hal Lindsey mai'r amser fyddai 1988, ddeugain mlynedd ar ôl sefydlu'r Israel fodern (Sweetnam, 2011, tt. 217-220).

Casgliad

Mae Llyfr y Datguddiad yn parhau i lunio dealltwriaeth eschatolegol Cristnogol hyd at y presennol, ar ffurf derbyniad llythrennol llawn o'i weledigaethau a

⁶ Mae llawer o rai nad ydynt yn filflwyddion yn dadlau y gellir disgrifio dyfodiad Iesu fel 'wedi bod ond nid eto': bod Teyrnas Dduw yn bresennol ar y ddaear yn barod yn ei ddyfodiad cyntaf ond nad yw eto wedi cyrraedd ei mynegiant llawn a llwyr.

⁷ Ymgorfforodd y ddau grŵp hefyd y delweddau a'r perlewyr apocalyptiaidd yn y Datguddiad yn eu datganiadau eschatolegol.

Ymgysylltiad Eschatolegol Cristnogol â Llyfr y Datguddiad

thrwy ymdrechion eraill i ddod i delerau â rhywbeth heblaw hyn. Gellir dadlau bod taith y Datguddiad yn fwy dyrys na thaith llyfrau canonaidd eraill, yn rhannol oherwydd disgrifiadau graffig sydd ar adegau yn ymddangos yn astrus, o'r broffwydoliaeth a'r apocalyps sydd ynddo. I bob grŵp Cristnogol fodd bynnag, mae'n parhau i hudo, rhyfeddu,

arswydo ac ysbrydoli, i raddau amrywiol ac weithiau i'r un graddau.

Wrth i'r amseroedd rydyn ni'n byw ynddynt adlewyrchu fwy a mwy y ddelweddaeth danllyd, oruwchnaturiol o fewn y Datguddiad, mae'n siŵr y bydd agweddau a dehongliadau eschatolegol Cristnogol yn newid ac yn ystumio ymhellach.

Geirfa

alegoriaidd: stori neu ddarn sy'n cyfleu ystyr symbolaidd cudd.

diffyg milflwyddiaeth: y gred bod disgrifiadau o deyrnasiad mil o flynyddoedd yn y Datguddiad i'w dehongli'n ffigurol.

apocalyptiaidd: proffwydoliaeth, disgrifiadau neu ddigwyddiadau yn y byd go iawn sy'n ymwneud â dinistr y byd.

canonaidd: derbynnir eu hawdurdod.

chiliasm: gweler *milflwyddiaeth*

tadau eglwysig: grŵp anniffiniedig o ddiwinyddion Cristnogol arbennig o ddylanwadol a sefydlodd seiliau diwinyddiaeth Gristnogol.

eschatoleg: diwinyddiaeth sy'n ymwneud â marwolaeth, barn a'r amseroedd gorffen i ddynoliaeth a'r byd.

milflwyddiaeth: cred yn nheyrnasiad Crist am fil o flynyddoedd lle traddodir barn gyfiawn.

rhifoleg: y berthynas rhwng rhifau a digwyddiadau'r byd go iawn, yn aml gyda rhifau'n cael eu defnyddio i ddynodi themâu penodol.

pantheon: yr holl duwiau o fewn crefydd amldduwiol.

cynfilflwyddiaeth: y gred y bydd Iesu yn dychwelyd i'r ddaear cyn cyfnod o farn.

perlewyg: cludo credinwyr i'r nef ar Ail Ddyfodiad Crist.

Pwyntiau trafod

1. Sut mae ysgrifennu a dehongli'r Datguddiad wedi cael eu dylanwadu gan y cyd-destunau y mae hyn wedi digwydd ynddynt?

Pa esboniadau cyd-destunol allai fod ar gyfer ymdeimlad cynyddol bod hyn yn agos yn yr ugeinfed ganrif?

2. Ydych chi'n meddwl bod cynnwys y Datguddiad yn gwrth-ddweud neges Iesu o gariad a derbyniad? Os felly, sut gallai cymunedau Cristnogol modern ddehongli a dod i delerau â'r llyfr hwn?
3. A oes unrhyw wahaniaeth diwinyddol gwirioneddol rhwng Iesu yn dod yn ôl i'r ddaear i ddeddfu barn neu wneud hyn o'r nefoedd? Os felly, beth yw'r gwahaniaeth hwnnw?

Cyfeiriadau a darllen pellach

- Augustine of Hippo (2009). *The city of God* (trans. Marcus Dods). Peabody, Massachusetts: Hendrickson.
- Backus, Irena (1998). The church fathers and the canonicity of the Apocalypse in the sixteenth century: Erasmus, Frans Titelmans, and Theodore Beza. *Sixteenth Century Journal*, 29(3), 651-666.
- Blount, Brian (2013). *Revelation: A commentary*. Louisville, Kentucky: Westminster John Knox Press.
- Galimberti, Allesandro (2016). The Emperor Domitian. In *A companion to the Flavian Age of Imperial Rome* (pp. 92-109). Ed. Andrew Zissos, Oxford: Wiley Blackwell.
- Keresztes, Paul (1973). The Jews, the Christians, and Emperor Domitian. *Vigilae Christianae*, 27, 1-28.
- Mounce, Robert (1997). *The Book of Revelation*. Grand Rapids, Michigan: Eerdmans.
- Osborne, Grant (2002). *Revelation*. Grand Rapids, Michigan: Baker Academic.
- Schmid, Heinrich (2008). *The doctrinal theology of the Evangelical Lutheran Church*. Eugene, Oregon: Wipf and Stock.
- Singelenberg, Richard (1989). 'It separated the wheat from the chaff': The '1975' prophecy and its impact among Dutch Jehovah's Witnesses. *Sociology of Religion*, 50(1), 23-40.
- Stone, Jon (2008). Nineteenth- and twentieth- century American millennialisms. In *The Oxford handbook of millennialism* (pp. 492-514). Ed. Catherine Wessinger, Oxford: Oxford University Press.
- Sweetnam, Mark (2011). Hal Lindsay and the Great Dispensational Mutation. *Journal of Religion and Popular Culture*, 23(2), 217-235.

Ar hyn o bryd mae Dr Joseph Powell yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Newman yn Birmingham yn dysgu agweddau cyfoes at grefydd, ar ôl cwblhau ei PhD mewn diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Caergrawnt yn ddiweddar. Mae wedi cyhoeddi llyfr a nifer o erthyglau cyfnodolion ar ddiwinyddiaeth a ffydd Rastaffari, yn fwyaf diweddar 'A Community Ten Miles Away', erthygl yn archwilio gweledigaethau Rastaffaraidd ar gyfer byw cymunedol, yn y cyfnodolyn Nova Religio.

Diwinyddiaeth Proses-Gysylltiedig

Wm. Andrew Schwartz

Mae safbwyntiau Groegaidd yr Henfyd ar sut le yw'r byd wedi bod yn sylfaen i safbwyntiau Cristnogol clasurol ar sut un yw Duw. Yn anffodus, mae'r bydolwg hwn yn hen ffasiwn ac wedi cyfrannu at ddiwinyddiaeth gymysglyd sy'n fwyfwy annerbyniol i genedlaethau ifanc. Os yw Cristnogaeth yr 21ain ganrif i barhau i gymell, bydd angen iddi fynegi barn am Dduw sy'n gyson â mewnwelediadau gwyddonol modern, profiadau personol a greddfau sylfaenol. Bydd gwneud hynny yn gofyn am sylfaen athronyddol newydd – dewis arall i fydolwg Groeg yr Henfyd. Dyna beth mae diwinyddiaeth sy'n ymwneud â phroses yn ceisio'i wneud. Mae'r ysgrif hon yn cynnig trafodaeth fer ar theistiaeth glasurol a chyflwyniad i'r safbwynt proses-berthynol o Dduw.

Cysylltiadau â'r fanyleb:

AQA-7061 / AQA-7062- 3.1.1. Athroniaeth crefydd: theodiciaeth broses; 3.2.2 2B

Cristnogaeth: Cysyniad o Dduw mewn diwinyddiaeth broses; anfarwoldeb gwrthrychol mewn diwinyddiaeth broses

EDEXCEL Papur 1 Athroniaeth crefydd: 3 Problemau drygioni a dioddefaint, theodiciaeth prosesau

SCOTTISH HIGHERS: Problem dioddefaint a drygioni, theodiciaeth broses

Dyfodiad diwinyddiaeth

Mae diwinyddiaeth yn aml yn cael ei chrynhofi fel astudiaeth o Dduw, ond nid dyna lle mae'n dechrau fel arfer. Daw diwinyddiaeth i'r amlwg mewn ymateb i gwestiynau mawr bodolaeth ddynol: Sut daeth y byd i fod? A oes pwrpas i'r cyfan? Sut ddylwn i fyw? Beth sy'n digwydd pan fyddaf yn marw?

Daw'r cysyniad o Dduw i fodolaeth wrth ateb cwestiynau o'r fath. Duw yw'r creawdwr, mae Duw yn darparu sylfaen ar gyfer moesoldeb, ac yn y blaen. Fodd bynnag, ni ellir byth archwilio sut beth yw Duw ar wahân i drwy fydolwg penodol. Bydolwg yw sut mae rhywun yn gweld y byd. Fel pâr o sbectol athronyddol, mae bydolwg yn darparu'r lensys deongliadol a ddefnyddiwn i ddeall realiti. Mae'r cwestiwn, 'Sut un yw Duw?' yn cael ei ateb orau ochr yn ochr â'r cwestiwn, 'Sut

beth yw'r byd?'

Ni ddaeth cysyniadau Cristnogol o Dduw i'r amlwg o fewn gwactod. Datblygodd Cristnogaeth, fel pob crefydd, mewn sgwrs â chyd-destunau diwylliannol a hanesyddol unigryw. Dyma pam y mae Cristnogaeth yn cymryd cymaint o ffurfiau amrywiol mewn gwahanol leoedd a gwahanol amseroedd. Fodd bynnag, mae gwreiddiau diwinyddiaeth Gristnogol wedi'u ffurfio'n drylwyr gan athroniaeth Groeg hynafol – yn enwedig athroniaeth Platon ac Aristoteles. Mae'r safbwyntiau hynafol hyn ar sut le yw'r byd wedi bod yn sylfaen i safbwyntiau Cristnogol clasurol ar sut un yw Duw. Yn anffodus, mae'r safbwyntiau hyn yn hen ffasiwn ac wedi cyfrannu at ddiwinyddiaeth anghydlynol. Trwy ddiweddarau ein bydolwg gallwn hefyd ddiweddarau ein

Diwinyddiaeth Proseses-Gysylltiedig

diwinyddiaeth, gan fynegi barn ar Dduw sy'n gyson â mewnwediadau gwyddonol modern, profiad personol a'n greddfau sylfaenol. Dyna beth mae diwinyddiaeth sy'n ymwneud â phroses yn ceisio'i wneud.

Felly, sut le yw'r byd? Gadewch i ni ddechrau gyda dau sylw sylfaenol – yn gyntaf bod pethau'n newid; nid wyf yn union yr un peth heddiw ag yr oeddwn ychydig flynyddoedd yn ôl (gofynnwch i'r glorian yn yr ystafell ymolchi). Yn ail, fod pethau yn aros yr un fath; mae yna ymdeimlad fy mod i bob amser yn fi waeth faint rydw i'n newid dros amser. Wedi'r cyfan, os nad fi ydw i, yna pwy fyddwn i? Felly, sut mae gwneud synnwyr o'r ffaith bod parhad a newid yn nodweddion craidd o realiti?

Y bydolwg hanfod a Duw

Yn ôl y brif esboniad o'r Hen Roeg, y blociau adeiladu mwyaf sylfaenol o realiti yw pethau statig, digyfnawid ac annibynnol a elwir yn 'hanfodion'. Nid yw hyn yn wrthodiad amlwg o'r syniad ein bod yn profi newid, ond yn ymgais i egluro sut (ynghanol newid) y mae rhywfaint o barhad hunaniaeth dros amser. Sut wyt ti'r un person heddiw ag oeddet ti fel plentyn? Yn ôl y byd-olwg hanfodion, y rheswm am hynny yw, oherwydd dan yr hyn sy'n ymddangos fel newid mae hunan hanfodol sy'n heb newid o un funud i'r llall. Am y rheswm hwn, mae bydolwg hanfod hefyd yn fydolwg sy'n pwysleisio parhad. Mae 'bod' (fel bod dynol) yn ei hanfod yn sylwedd parhaol ac annibynnol sy'n parhau trwy newidiadau arwynebol ar yr wyneb. Mewn termau deuol, y corff dibarhad sy'n mynd trwy newid tra bod yr enaid parhaol yn para'n ddigyfnawid.

Mewn diwinyddiaeth Gristnogol, cyfrannodd meddwl hanfodol at y cysyniad o Dduw fel un heb gorff, heb ddechrau a heb newid. Fel yr ymresymodd

Aristoteles, mae achos i bopeth. Duw, fel creawdwr, yw achos y cosmos. Ond pwy greodd Duw? Neb! Pe bai Duw wedi ei greu, yna creawdwr Duw fyddai'r Duw go iawn gan mai Duw yw'r mwyaf o bob bod. Gan hynny, mae'n rhaid fod Duw heb ei greu: yr achos di-achos, neu yr achos cyntaf. Gan fod Duw heb ei greu, mae'n rhaid bod Duw yn dragwyddol (felly heb ddechrau na diwedd). Mae Duw hefyd yn ddigyfnawid. Gelwir hyn yn athrawiaeth *anghyfnawidioldeb*. Wedi'r cyfan, os yw Duw yn berffaith, yna byddai newid er gwell yn golygu bod Duw yn flaenorol yn llai na pherffaith, tra byddai newid er gwaeth yn golygu bod Duw yn dod yn llai na pherffaith. Ac os yw Duw yn ddigyfnawid, yna mae'n rhaid nad yw Duw yn cael ei effeithio gennym ni. Gelwir hyn yn athrawiaeth *natur ddigyffro*. Pe bai Duw yn cael ei effeithio'n emosiynol gennym ni (dioddef o'n herwydd, neu brofi llawenydd o'n herwydd) yna byddai Duw yn cael ei newid gennym ni. Un ffordd o egluro pam nad yw Duw yn cael ei effeithio yw bod Duw ar wahân i'r byd. Gan fod Duw 'allan yno', nid yw Duw felly yn cael ei effeithio gan yr hyn a wnawn 'yr ochr yma'. Mae theistiaeth glasurol yn aml yn gwahanu Duw oddi wrth y byd i'r fath raddau fel y credir bod Duw rywsut yn bodoli y tu allan i amser gofod yn gyfan gwbl, sef y tu allan i realiti fel yr ydym yn ei adnabod. Ond mae'r ffordd hon o feddwl yn creu problem – byddai Duw sydd ar wahân i'r byd yn gyfan gwbl anhysbys i'r byd.

Gallu, drygioni a dioddefaint Duw

Sut felly y gallwn ni wneud synnwyr o bresenoldeb a gweithredoedd Duw yn y byd? Yr ateb poblogaidd yw credu, er bod Duw ar wahân i'r byd, bod Duw weithiau yn ymyrryd yn y byd. Ond gan nad yw Duw yn rhan o'r byd, mae ymyriadau Duw yn oruwchnaturiol (tu hwnt i natur). Mae'r ymyriadau goruwchnaturiol hyn yn bosibl oherwydd

Diwinyddiaeth Proseses-Gysylltiedig

bod Duw yn holl-bwerus (hollalluog). Yn y persbectif hanfod hwn, mae bod yn holl-bwerus yn golygu gallu achosi newid ar y byd heb gael ei effeithio gan y byd. Felly, mae gallu Duw yn cael ei ddeall fel un sy'n un cyfeiriad, unochrog ac o'r brig i lawr. Oherwydd bod gan Dduw yr holl bŵer, mae popeth sy'n digwydd yn y byd oherwydd bod Duw yn ei ganiatáu.

Y drydedd agwedd yw maddeuant 'rhyngddibynol'. Mae maddeuant yn rhyngddibynol pan fydd gan y sawl sydd wedi'i anafu a'r drwgweithredwr ran i'w chwarae wrth sicrhau maddeuant. Yn fwy penodol, mae maddeuant rhyngddibynol yn digwydd pan fydd pobl sydd wedi gwneud drwg, yn mynegi gofid am yr hyn y maent wedi'i wneud i'r rhai y maent wedi'u brifo. Maent yn gwneud hyn oherwydd eu bod wedi dod i gydnabod bod yr hyn a wnaethant yn anghywir. Maen nhw'n dewis cydnabod eu camwedd, gan gyfaddef cyfrifoldeb drosto, nid yn unig iddyn nhw eu hunain ond hefyd i'r bobl y maen nhw wedi'u hanafu. Os gallant, ac os oes angen, maent hefyd yn gwneud yr hyn a allant i unioni pethau. Yna gall y sawl a anafwyd gynnig maddeuant mewn ymateb i edifeirwch y drwgweithredwr. Gyda maddeuant yn cael ei roi a'i dderbyn yn y modd hwn, mae gan y drwgweithredwr a'r sawl a anafwyd rôl unigol, a rhyngddibynol. Mae'r ddadl dros yr ymagwedd hon at faddeuant – ac yn enwedig lle gwneud iawn fel rhan o'r broses o faddau – wedi'i gwneud a'i darlunio'n rymus yn Tutu van Furth, 2022.

Mae dwy brif elfen i faddeuant rhyngddibynol. Y cyntaf yw *amlygiad o effaith* (hynny yw, mynegiant allanol emosiynau mewnol, a elwir yn gyffredin yn 'deimladau'). Yn y cyd-destun hwn, mae mynegiannau o effaith yn cynnwys gofid, teimlo'n euog ac edifeirwch. Yr ail yw *gweithredoedd*, megis edifeirwch, adferiad a gwneud iawn. (Byddwch wedi sylwi bod edifeirwch yn fynegiant o effaith

ac yn weithred.) Gallwn roi'r hyn yr ydym yn ei ddweud yn syml iawn: lle mae maddeuant rhyngddibynol, bydd y drwgweithredwr yn difaru'r hyn a wnaed, yn gwneud penderfyniad pendant i beidio â gwneud yr un peth eto, ac i unioni yr hyn y gellir ei unioni.

Gallwn gyfeirio at yr elfennau hyn mewn iaith ffurfiol a dweud mai'r hyn y maent yn ei olygu yw *gofid*, *edifeirwch* a *gwneud iawn*. Yn Saesneg, 'tair R' maddeuant rhyngddibynol – *regret*, *repentance* a *recompense*. Rydym fel arfer yn ystyried mai tair elfen maddeuant rhyngddibynol yw'r fframwaith sylfaenol ar gyfer ceisio, cael cynnig, a derbyn maddeuant (ar ran y sawl sy'n gwneud y drwg) a chynnig a rhoi maddeuant (ar ran y sawl a anafwyd).

Mae maddeuant a roddir ac a dderbynnir fel hyn fel arfer yn debygol o arwain at ganlyniadau da, a mwy parhaol, na chanlyniadau unrhyw un o'r ffyrdd eraill y gall pobl faddau. Mae hefyd yn bodloni llawer o amodau yr hyn a ystyrir yn foesol rinweddol.

I gloi

Fel y gwelsoch, mae amrywiaeth o safbwyntiau ynglŷn â beth yw maddeuant a beth nad yw maddeuant, a phryd y mae'n iawn i faddau a phryd y mae'n iawn dewis peidio â maddau. Rydyn ni'n gadael cwestiwn i chi wrth gloi.

Michael Lapsley sy'n gofyn y cwestiwn. Roedd Lapsley, offeiriad Anglicanaidd yn wreiddiol o Seland Newydd, yn gweithio yn Ne Affrica yn gwrthwynebu apartheid a chafodd ei ddiarddel o'r wlad. Yn 1990, tra'n byw yn Zimbabwe, dioddefodd anafiadau difrifol o fom llythyr, un a anfonwyd yn gudd gan luoedd diogelwch De Affrica yn ôl pob tebyg, i'w ladd. Collodd ei ddwy law a chafodd ei ddallu mewn un llygad. Pan ofynnwyd iddo a ddylai faddau'n ddiamod i gyflawnwyr y drosedd (er nad yw'n gwybod yn sicr pwy

Moesoldeb Maddeuant

ydyn nhw), gofynnodd Lapsley gwestiwn tebyg i hwn mewn ymateb: 'Os ydych chi'n dwyn fy meic, ac rwy'n maddau ichi, pwy sy'n cadw'r beic?'

Beth ydych chi'n meddwl yw'r ateb i'r cwestiwn hwn? A sut mae hyn yn effeithio ar eich barn am natur a chwmpas maddeuant?

Cysylltiadau rhyngrwyd

[Forgiveness](#) (Erthygl gan Paul M. Hughes a Brandon Warmke, *Stanford Encyclopedia of Philosophy*, 2017)

www.theforgivenessproject.com

(rhannu straeon gan ddioddefwyr/ goroeswyr a chyflawnwyr troseddau a gwrthdaro sydd wedi ailadeiladu eu bywydau yn dilyn niwed a thrawma)

[Forgiveness](#) (Erthygl yn Wikipedia)

Pwyntiau trafod

(yn ogystal â'r cwestiwn y mae Michael Lapsley yn ei godi)

1. Beth ydych chi'n meddwl yw drwgdeimlad?
2. Os nad yw rhywun yn teimlo drwgdeimlad, a allant faddau?
3. Beth ydych chi'n meddwl yw maddeuant – a pha ymatebion eraill ydych chi'n meddwl sy'n ymwneud â maddeuant ond nad ydyn nhw'n faddeuant mewn gwirionedd?

4. Allwch chi feddwl am sefyllfaoedd pan fo'n foesol rinweddol maddau i ddrwgweithredwr nad yw'n dangos gofid, edifeirwch a dymuniad i unioni cam?

Cyfeiriadau

- Bash, Anthony (2007). *Forgiveness and Christian ethics*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Bash, Anthony (2011). *Just forgiveness. Exploring the Bible, weighing the issues*. London: SPCK.
- Bash, Anthony (2015). *Forgiveness: A theology*. Eugene, Oregon: Cascade.
- Butler, Joseph (1827). *Fifteen sermons preached at the Rolls Chapel*. (Testun ar gael ar-lein yn <http://www.ccel.org/ccel/butler/sermons.html>)
- Cherry, Stephen (2012). *Healing agony. Reimagining forgiveness*. London: Continuum.
- Enright, Robert D., & North, Joanna (Eds.) (1998). *Exploring forgiveness*. Madison, Wisconsin: University of Wisconsin Press.
- Griswold, Charles L. (2007). *Forgiveness: A philosophical exploration*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Cantacuzino, Marina (2015). *The forgiveness project: Stories for a vengeful age*. London: Jessica Kingsley.
- Cantacuzino, Marina (2022). *Forgiveness: An exploration*. London: Simon & Schuster.
- Derrida, Jacques (2001). *On cosmopolitanism and forgiveness*. London: Routledge.
- Holmgren, Margaret (2012). *Forgiveness and retribution*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Jones, L. Gregory (1995). *Embodying forgiveness. A theological analysis*. Grand Rapids, Michigan: Eerdmans.
- Lapsley, Michael (2012). *Redeeming the past. My journey from freedom fighter to healer*. Maryknoll, New York: Orbis Books.
- Murphy, Jeffrey G., & Hampton, Jean (1988). *Forgiveness and mercy*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Nussbaum, Martha C. (2016). *Anger and forgiveness: Resentment, generosity, justice*. Oxford: Oxford University Press.
- Tutu van Furth, Mpho (2022). *Forgiveness and reparation: The healing journey*. London: Darton, Longman & Todd.

Mae'r Athro Anthony Bash yn athro diwinyddiaeth er anrhydedd ym Mhrifysgol Durham a bu'n darlithio ar astudiaethau y Testament Newydd ym Mhrifysgol Hull a Phrifysgol Durham. Mae wedi'i ordeinio yn Eglwys Loegr ac arferai weithio fel cyfreithiwr. Mae'n ysgrifennu ar faddeuant, cymod ac edifeirwch.

Ymwybyddiaeth Ofalgar a'r Teulu (McMindfulness)

Phra Nicholas Thanissaro

Mae ymwybyddiaeth ofalgar (mindfulness) a myfyrio yn rhan o'r ffordd y mae Bwdhyddion yn ffurfio ac yn mynegi eu hunaniaeth grefyddol. Mae ymwybyddiaeth ofalgar wedi dod yn fwy 'prif ffrwd' yn ddiweddar yn y gymdeithas Orllewinol fel therapi ar gyfer anhwylderau iechyd penodol ac hefyd i hyrwyddo lles personol – gan arwain at ddealltwriaeth o ymwybyddiaeth ofalgar sy'n cyferbynnu ag un Bwdhyddion traddodiadol. Yn yr ysgrif hon ceisir disgrifio tri cham addasu ymwybyddiaeth ofalgar yn y Gorllewin, gan ddangos sut mae myfyrdod ac ymwybyddiaeth yn cael eu deall yn fwy traddodiadol, y tensiynau y mae ymwybyddiaeth ofalgar 'fasnachol' wedi'u creu i'r gymuned ymarferwyr Bwdhaeth traddodiadol, a'r ffyrdd amrywiol y cafodd y rhain eu datrys yn y presennol.

Cysylltiadau â'r fanyleb:

AQA 7062 2A Bwdhaeth: Mynegiannau o Hunaniaeth Fwdhaidd: Myfyrio, y defnydd modern o fyfyrio Bwdhaidd fel math o therapi a sut mae Bwdhyddion wedi ymateb i hyn

OCR Datblygiadau mewn meddwl Bwdhaidd (H573/06): 3 Byw, Pwnc: Rôl ymwybyddiaeth ofalgar mewn ymarfer Bwdhaidd

Hefyd:

EDUQAS Elfen 1: Astudiaeth o Grefydd: Opsiwn D: Astudiaeth o Fwdhaeth, Thema 4: Arferion crefyddol sy'n ffurfio hunaniaeth grefyddol

EDEXCEL Papur 4, Opsiwn 4A: Bwdhaeth: Pwnc 3 Arferion sy'n ffurfio a mynegi hunaniaeth grefyddol; Pwnc 3, 3.3 cyd-destun a chymhwyso ymwybyddiaeth ofalgar

Ymwybyddiaeth ofalgar draddodiadol

Ymwybyddiaeth ofalgar neu 'mindfulness' yw'r cyfieithiad o'r gair hynafol *sati* neu'r gair Sansgrit *smṛti* a oedd yn yr ieithoedd gwreiddiol yn golygu 'cof' neu 'gadw'. Dechreuodd fel rhan bwysig o arfer Bwdhaidd, yn ffurfio hunaniaeth grefyddol fel un o'r ffactorau yn y saith ffactor goleuedigaeth [*bojjhaṅga*] oedd yn cael ei fireinio yn nhermau Pedwar Sylfaen

ymwybyddiaeth a oedd yn y Mahāsatipaṭṭhāna Sutta(s). Bydd myfyrwyr Astudiaethau Crefyddol yn adnabod ymwybyddiaeth yn y cyd-destun Bwdhaidd fel 'Ymwybyddiaeth Gywir' [*sammā sati*] lle mae'n un o'r camau ar y Llwybr Wythblyg Nobl – lle mae'n cael ei wahaniaethau o gysyniad gwahanol 'Myfyrdod Cywir' [*sammā samādhi*].

Ymwybyddiaeth Ofalgar a'r Teulu (*McMindfulness*)

O fewn Bwdhaeth, mae ymwybyddiaeth ofalgar yn draddodiadol yn eithaf canolog i strwythur ei dysgeidiaethau. Mae'r hyn a adnabyddir mewn Bwdhaeth yn 'ddiffyg byrbwylltra' [*appamāda*] wedi'i seilio'n bendant iawn ar y syniad o fod yn ymwybodol. I'r rhan fwyaf o bobl, gallai byrbwylltra olygu rhywbeth fel croesi ffordd heb edrych i'r dde a'r chwith gyntaf, ond gall byrbwylltra mewn Bwdhaeth olygu unrhyw beth sy'n peryglu gobeithion unigolyn i gael twf ysbrydol. Mae nodweddion traddodiadol ymwybyddiaeth yn cynnwys gwarchod y meddwl rhag cael ei ddal yn gaeth i dymherau, teimladau a meddyliau'n cronni, tra'n ysgogi hunan-ymwybyddiaeth. Byddai buddion ymwybyddiaeth ofalgar yn cynnwys gallu gosod clustog goddrychol rhwng poen corfforol unigolyn a sut mae'n gwneud iddo deimlo, atal rhywun rhag mynd yn sownd mewn safbwyntiau hunanol neu ystyfnig, paratoi'r ffordd at fewnwelediad trylwyr i *wreiddiau* problemau yn hytrach nag aros gyda'r symptomau (er enghraifft dod o hyd i ble mae peipen yn gollwng yn hytrach na sychu'r llawr drwy'r amser), gan ychwanegu dimensiwn o'r 'cysegredig' neu'r 'llwybr at hunan-welliant' i beth bynnag y mae rhywun yn ei feddwl, ei ddweud neu ei wneud.

Mae swyddogaethau traddodiadol ymwybyddiaeth ofalgar yn cynnwys trin pethau a allai fod yn beryglus gyda gofal – hyd yn oed pan fo'r rhain yn ymddangos yn ddibwys ar yr wyneb (fel y gall gwreichionyn bychan losgi dinas gyfan). Gan fod gan bob tasg linell dybiannol a'r tu hwnt iddi mae niwed yn dod yn annerbyniol yn foesebol, byddai person ymwybodol yn gallu synhwyro ble mae angen tynnu'r llinell honno. Byddai ymwybyddiaeth ofalgar yn atgoffa rhywun mewn pryd – bron fel catalydd (tebyg i gloc larwm, a fyddai'n cael rhywun i godi o'r gwely yn y bore er mai parhau i bwyso

'snooze' fyddai'r dewis mwy heddychlon). Os oes gan rywun gyfrifoldebau, byddai ymwybyddiaeth yn eu cadw'n ymwybodol o'r rhain, ac yn arwain at drylwyrdd ym mhob tasg (Bodhi, 2011).

Wrth i'r cysyniad o ymwybyddiaeth ofalgar ledaenu y tu hwnt i Asia, gwelwyd ei addasu yn y Gorllewin fel tair ton hanesyddol. Ar ddechrau'r don gyntaf, yn mynd yn ôl i'r 1900au, yr unig rai oedd yn ymarfer myfyrdod ac ymwybyddiaeth ofalgar oedd ysgolheigion a Dwyreinyddion, ond yn ddiweddarach cafodd ymwybyddiaeth ofalgar ei mabwysiadu o fewn ei chyd-destun Bwdhaidd gan hyfforddwyr Asiaidd oedd yn ymweld â'r Gorllewin. Yn nhon gyntaf yr addasu, cadwodd ymwybyddiaeth ofalgar ei ystyr wreiddiol – sef nodwedd feddyliol a oedd yn caniatáu i ymarferwr gofio gweithredu mewn ffordd foesebol, gyda hunan-ymwybyddiaeth a heb y synhwyrâu eraill yn tynnu sylw a bob amser gyda myfyrio doeth. Nid oedd yn cael ei ystyried yn rhinwedd goddefol yn unig (fel rhywbeth sy'n reddfol i fabanod a phlant) ond roedd angen cryn *ymdrech* i'w meithrin. Er y *gall* ystyr traddodiadol ymwybyddiaeth ofalgar gynnwys arsylwi heb farnu pethau, roedd hefyd yn golygu deall eu gwir werth ar lefel ddyfnach.

Addasu ymwybyddiaeth ofalgar i'r Gorllewin

Yn yr ail don hanesyddol ers yr 1990au, roedd apêl fwy cyffredinol i arferon ymwybyddiaeth drwy eu tynnu oddi wrth eu traddodiad, eu preifateiddio a thynnu'r cysylltiad â Bwdhaeth. Nid term technegol astrus i Orllewinwyr oedd hwn mwyach, daeth 'ymwybyddiaeth ofalgar' yn allweddair am 'sgiliau myfyrio seciwlar'. Roedd seicolegwyr yn defnyddio ymwybyddiaeth a'i chymhwyso i wella hunanddisgyblaeth a chefnogi hyblygrwydd emosiynol, gwybyddol ac ymddygiadol. I ddechrau roedd defnydd y

Ymwybyddiaeth Ofalgar a'r Teulu (*McMindfulness*)

Gorllewin gan seicolegwyr yn canolbwyntio ar drin anhwylderau seicolegol yn cynnwys poen, straen, iselder, anoddefgarwch trallod a cham-drin sylweddau. Yn y DU, cytunodd Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Ymwybyddiaeth Ofalgar (2015) fod ymwybyddiaeth ofalgar yn fwy cost-effeithlon na'r prif ymyriadau ar gyfer cymwysiadau iechyd meddwl fel ail bwl o iselder (Pennan & Williams, 2011). Oherwydd ar y pryd, roedd ymwybyddiaeth ofalgar seciwlar yn y cyd-destun clinigol yn cynnig triniaeth i gyflyrau fel iselder (lle y gallai ailwaeledd fod â chanlyniadau lle mae bywyd yn y fantol o bosibl), roedd y rhai o'i blaid yn dadlau, er mwyn bod yn gynaliadwy, fod angen i'w Ymyriadau Seiliedig ar Ymwybyddiaeth Ofalgar (MBI) fod yn dilyn ymchwil da, ac wedi'i hadeiladu'n ofalus – a thrwy hynny, wedi'u hachredu ac yn hunangynhaliol yn ariannol – tra'n cadw perthynas addysgol myfyriwr-athro y 'don gyntaf'. Roedd y fersiwn newydd o 'ymwybyddiaeth ofalgar' yn osgoi'r elfennu o draddodiad Bwdhaidd oedd yn cael eu hystyried yn rhai ofergoelus. Daeth ymchwil seiliedig ar dystiolaeth yn 'safon aur' i MBIs yng nghymdeithasau'r Gorllewin, ac ym Mhrydain penderfynodd y Gymdeithas Dulliau Ymwybyddiaeth Ofalgar (BAMBA) achredu Rhaglenni Seiliedig ar Ymwybyddiaeth Ofalgar (MBPs) a hyfforddwyr.

Yn diweddarach, daeth datblygiadau ail don ar ymchwydd seicoleg gadarnhaol, ac ymestyn ymwybyddiaeth i wella lles goddrychol, yn ategu safonau ansawdd y gweithle (NICE, 2017). Serch hynny, cydnabuwyd fwyfwy fod tensiwn rhwng seilwaith ymwybyddiaeth seciwlar oedd yn dderbyniol i gymwysiadau clinigol a myfyrio er lles cyffredinol (Williams & Kabat-Zinn, 2011) – yn cynnwys yr hyn oedd yn cael ei ddysgu gan athrawon Bwdhaidd traddodiadol. Roedd athrawon ymwybyddiaeth y don gyntaf yn cael eu

rhwystro ar y naill ochr gan bwyslais yr ail don ar ymchwil seiliedig ar dystiolaeth ac ar yr ochr arall gan y gimic hunangymorth masnachol y mae pobl yn ei wftio a'i alw'n 'McMindfulness' (Purser, 2019). Mae tueddiadau mwy masnachol y 'chwyldro ymwybyddiaeth' hwn wedi tueddu i anwybyddu rhai o'r nodweddion pwysicaf yr oedd i fod i'w cyfleu yn wreiddiol – un o anfanteision yr hyn y mae cymdeithasegwyr yn cyfeirio ato fel y broses o adfeddiant Gorllewinol'.

Er gwaethaf gorsymleiddio rhai mathau o ymwybyddiaeth ofalgar, roedd yn dal i fod yn ffasiwn y ddegawd gyda chynnydd aruthrol mewn cyhoeddiadau cysylltiedig gan ymchwilwyr gwyddonol a sawl cyfnodolyn penodol a adolygwyd gan gymheiriaid. Er bod hygrededd ymwybyddiaeth yn y Gorllewin wedi'u sylfaenu ar dystiolaeth seiliedig ar ymchwil, mae'r hyn oedd yn cael ei fesur yn yr arbrofion hynny ychydig yn wahanol i ymwybyddiaeth ofalgar yn ystyr draddodiadol y gair. I roi enghraifft o'r gwahaniaeth, mae un o'r graddfeydd a ddefnyddir amlaf o'r enw'r *Freiburg Mindfulness Inventory* (Walach, Buchheld, Bittenmuller, Kleinknecht, & Schmidt, 2006) yn ei chyfyngu ei hun i fod yn agored i brofi'r foment bresennol, bod yn ymwybodol o'ch corff tra'ch bod yn gwneud gweithgareddau eraill, dod â'r meddwl sy'n crwydro yn ôl i'r fan a'r lle, gwerthfawrogi'ch hun, talu sylw i'r hyn sydd y tu ôl i'ch gweithredoedd, peidio â beirniadu'ch camgymeriadau, teimlo'n gysylltiedig â'r presennol, derbyn profiadau annymunol, bod yn garedig â'ch hun pan fo pethau'n mynd o'u lle, gwylio'ch teimladau heb ymgolli ynddyn nhw, oedi yn hytrach nag ymateb i sefyllfaoedd anodd, profi eiliadau o heddwch mewnlol pan mae fel ffair o'ch cwmpas, osgoi bod yn ddiamynedd â'ch hun ac eraill a gallu gwenu pan fyddwch yn sylwi sut rydych weithiau yn gwneud

Ymwybyddiaeth Ofalgar a'r Teulu (*McMindfulness*)

bywyd yn anodd. Mae rhai athrawon myfyrio Gorllewinol, ar ben hynny, wedi nodweddau ymwybyddiaeth ofalgar fel sylw 'prin yno' neu ddiamgyffred – fel y dywedir 'mynd gyda'r llif'. Mae fersiynau Gorllewinol fel hyn yn aml yn troi at wneud pethau ar hanner cyflymder, ymarfer *McMindfulness* heb synnwyr cyffredin, teimlo'n rhinweddol am eistedd yn llonydd neu aros yn ddibryder pan mae perygl enbyd yn eich wynebu. Ceir parodi o hyn yn y *Ladybird Book of Mindfulness*, gydag enghreifftiau fel:

Leanne has been staring at this beautiful tree for five hours. She was meant to be in the office. Tomorrow she will be fired. In this way mindfulness solved her work-related stress. (Hazely & Morris, 2015, 22)

Tueddiadau presennol

Yn y drydedd don bresennol, ym mlynnyddoedd cynnar yr 21ain ganrif, llawer ohonynt yn adlewyrchu tueddiadau cyffredinol mewn ôl-seciwlariaeth, gwelwyd mwy a mwy o arallgyfeirio o ran dulliau, mewn modd sydd wedi datrys peth o'r tensiwn rhwng rhanddeiliaid ymwybyddiaeth ofalgar. Gan nad yw gwasanaethau achrededig BAMBA wedi llwyddo i'w lluniadu eu hunain yn ddigonol i gynnig ymwybyddiaeth ofalgar i bawb sy'n dymuno dysgu amdani, mae'n dal i gael ei dysgu'n eang heb unrhyw sail tystiolaeth, ar sail dim mwy na record anrhydeddus dros amser, tra er mwyn ymddangos yn gymwys, mae cyrff oedd eisoes yn dysgu myfyrdod wedi sgrialu i gynhyrchu tystiolaeth wyddonol am fuddion yr MBIs y maent wedi'u defnyddio erioed. Mae enghreifftiau o ddilysu technegau myfyrio ac ymwybyddiaeth ofalgar trwy dystiolaeth *post-hoc* wedi cynnwys 'Breathworks' a 'Mindfulness in Action' gan Gymuned Fwdhaidd Triratna, yr *Insight-Based Mindfulness Programme* a myfyrdod Dhammakāya.

Yn y drydedd ton yma o ymwybyddiaeth ofalgar, gwelwyd gwthio'n ôl yn erbyn agweddau mwy masnachol dysgu ymwybyddiaeth ofalgar. Er bod ymwybyddiaeth ofalgar yn dal i gael lle mewn cylchgronau 'lles' a hamdden, bu pobl yn fwy agored i geisio adennill rhai o elfennau traddodiadol y diwylliant Bwdhaidd i gyd-fynd â'r ddysgeidiaeth seciwlar (Van Gordon, Shonin, & Griffiths, 2015). Un o sgil-ffeithiau'r pandemig Covid yn y cyfnod 2020-2021 oedd bod y berthynas athro-myfyriwr wyneb yn wyneb unigol i ddysgu ymwybyddiaeth ofalgar, wedi gorfod dod i ben mewn nifer o lefydd. Arweiniodd hyn at fwy o ddysgu ymwybyddiaeth ofalgar ar-lein neu drwy apiau,¹ mewn ffordd debyg i ddysgu ail iaith ar-lein. Yn hytrach na dilyn sianeli penodedig rheoliad MBI, daeth dulliau ymwybyddiaeth ofalgar (yn enwedig i'w defnyddio at bethau fel methu cysgu) yn fwy poblogaidd ar y sail eu bod yn effeithiol, yn hawdd eu cael neu wedi'u dylunio'n dda – sy'n golygu fod hyfforddwyr ymwybyddiaeth ofalgar real neu rithiol wedi cael graddfeydd cynyddol o hunanddisgyblaeth. Daeth yn fwyfwy amlwg nad oedd atal dysgu myfyrio oherwydd (diffyg) canlyniadau mesuradwy yn fwy posibl na chyfiawnhau rheoleiddio gwasanaethau eglwys yn seiliedig ar ymchwil i weddi erfyniol. Yn fyr mae'r drydedd ton o addasu ymwybyddiaeth ofalgar i'r Gorllewin wedi gweld arallgyfeirio cynyddol mewn ffyrdd a dulliau o ddarparu ymwybyddiaeth ofalgar.

Felly ble mae hyn yn gadael ymwybyddiaeth ofalgar yn y drydedd ton? Er gwaethaf y safbwyntiau gwahanol am ymwybyddiaeth ofalgar, mae'n debyg mai'r ffordd fwyaf cywir o ddeall

¹ Er enghraifft, Calm, Headspace, Insight Timer, Mindfulness Coach, Mindgem, Smiling Mind, The Mindfulness App ac UCLA Mindful.

'ymwybyddiaeth ofalgar', er gwaetha'r ail-ddehongli dros y blynyddoedd, yw fel cyfres o sgiliau meddyliol sy'n ategu ond yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir wrth ymarfer eistedd i fyfrio. Tra bod myfrio yn rhywbeth y mae ymarferydd yn ei wneud wrth eistedd â'i lygaid ar gau ar fat myfrio, mae ymwybyddiaeth ofalgar yn ffordd o hyfforddi'r meddwl sy'n digwydd *y tu allan* i i'r ymarfer myfrio ffurfiol ac wrth wneud pethau eraill. Mewn ffordd,

p'un ai bod rhywun yn mynd ati gyda bwriad i ychwanegu agwedd fwy moesegol neu ysbrydol i'w bywyd, bydd y cyfuniad o ymwybyddiaeth ofalgar a myfirdod yn gwella hyn, beth bynnag. Mae ymwybyddiaeth ofalgar yn helpu i gymhwyso'r doethineb, y tosturio a'r purdeb meddwl a geir yn ystod myfrio ar eich eistedd i agweddau eraill o'ch bywyd, heb fod yn rhai myfrio.

Ymwybyddiaeth Ofalgar Hybrid: Stori Rybudd

Yn 2002, teithiodd mynach Bwdhaidd o Sri Lanka i sefydlu'r hyn a alwyd yn 'Tenement Temple', canolfan fyfirdod yng nghanol Glasgow. Roedd yn dysgu myfirdod anadlu yn Saesneg am ddim (fel mae Bwdhyddion yn gwneud), bob nos Wener, ond dim ond cynulleidfa fach iawn oedd yn dod. Roedd yn poeni'n fawr am sut i dalu'r morgais ar adeilad ei deml.

Yn ddiweddarach dechreuodd y mynach hyfforddi i ddysgu Lleihau Straen yn Seiliedig ar Ymwybyddiaeth Ofalgar ym Mhrifysgol Bangor. Wedi cymhwyso, parhaodd i ddysgu ei ddosbarth myfrio Bwdhaidd 'am ddim' bob nos Wener ond agorodd ddosbarth ymwybyddiaeth ofalgar newydd bob nos Fawrth yn ei deml gan godi £250-£350 ar bob myfyriwr am y cwrs wyth wythnos. Er ei fod yn cyfaddef ei fod yn dysgu'r un peth ar nosweithiau Mawrth a Gwener, roedd llawer mwy yn dod i'r cwrs nos Fawrth. Yna, gan sylweddoli bod gobaith i ddod â'i broblemau morgais i ben, gyda'r agwedd 'os na fedri di'u curo nhw, dos yn un ohonyn nhw', cyhoeddodd y mynach ei fwriad yn 2013 i flaenoriaethu ymwybyddiaeth ofalgar ar draul gweithgareddau Bwdhaidd traddodiadol.

Yn y pen draw, llwyddodd i orffen talu ei forgais, ond collodd y mynach angor ei hunaniaeth draddodiadol a daeth ei gwmp mewn sgandal oedd yn cynnwys myfyrwyr benywaidd.

Ymwybyddiaeth Ofalgar a'r Teulu (*McMindfulness*)

Geirfa

Appamāda: y gair Pali gwreiddiol am 'ddiffyg byrbwylltra'.

hunanaberth, sydd weithiau'n cael ei sillafu yn yr un ffordd.)

Sati: y gair Pali gwreiddiol am 'ymwybyddiaeth ofalgar'. (Ni ddylid ei ddrysu â 'suttee', arfer hanesyddol gweddwon Hindŵaidd o

Dolen i'r rhyngrwyd

Ar ymwybyddiaeth ofalgar a rhai o'i chyfyngiadau: <https://greatergood.berkeley.edu/topic/mindfulness/definition>

Pwyntiau trafod

1. Chwiliwch am ap ymwybyddiaeth ofalgar am ddim a gwrandewch ar drac arwain myfyrdod wrth geisio penderfynu a yw'n enghraifft o ymwybyddiaeth ofalgar draddodiadol neu rywbeth ffug (*McMindfulness*) Sut ydych chi'n gwybod?
2. Wrth faglu ar draws neidr wenwynig yn y jyngl, sut byddai ymateb person ymwybodol traddodiadol yn wahanol i un rhywun a gafodd ei hyfforddi mewn *McMindfulness*?
3. Yn draddodiadol, mae ymwybyddiaeth ofalgar wedi cael ei chymharu gyda (a) colofn gynhaliol, (b) bownser, (c), cyfrifydd a (d) llyw llong. Allwch chi roi enghraifft i gyfiawnhau pob un o'r cymariaethau hyn?

Cyfeiriadau

- Bodhi, B. (2011). What does mindfulness really mean? A canonical perspective. *Contemporary Buddhism*, 12(1), 19-39.
- Hazely, J., & Morris, J. (2015). *The Ladybird Book of Mindfulness*. Harmondsworth: Penguin.
- Mindfulness All-party Parliamentary Group. (2015). *Mindful Nation UK*. Ar gael yn: <https://www.themindfulnessinitiative.org/mindful-nation-report> (Cyrchwyd 10 March 2020).
- National Institute for Health and Care Excellence (NICE) (2017). *Healthy workplaces: Improving employee mental and physical health and wellbeing*. <https://www.nice.org.uk/guidance/qs147>
- Penman, D., & Williams, M. (2011). *Mindfulness: A practical guide to finding peace in a frantic world*. London: Piatkus.
- Purser, R.E. (2019). *McMindfulness: How mindfulness became the new capitalist spirituality*. London: Watkins Media.
- Van Gordon, W., Shonin, E., & Griffiths, M.D. (2015). Towards a second generation of mindfulness-based interventions. *The Australian and New Zealand Journal of Psychiatry*, 49(7), 591-592.
- Walach, H., Buchheld, N., Butenmuller, V., Kleinknecht, N., & Schmidt, S. (2006). Measuring mindfulness: The Freiburg Mindfulness Inventory (FMI). *Personality and Individual Differences*, 40, 1543-1555.
- Williams, J.M.G., & Kabat-Zinn, J. (2011). Mindfulness: Diverse perspectives on its meaning, origins, and multiple applications at the intersection of science and dharma. *Contemporary Buddhism*, 12, 1-18.

Mae Phra Dr Nicholas Thanissaro wedi bod yn fynach Bwdhaidd ers 25 mlynedd. Gyda 37 mlynedd o brofiad myfyrio, mae'n athro myfyrdod wedi'i gymhwyso gan Gymdeithas Feddygol Cyflenwol y DU. Wedi'i dderbyn gan Sefydliad Dhammakaya, mae hefyd wedi cymhwyso fel athro ysgol ac ymarferydd MBTI. Yn ystod ei gyfnod fel Cymrawd Cysylltiol ym Mhrifysgol Warwick, fel ymarferydd-ysgolhaig, cyhoeddodd yn eang mewn cyfnodolion a adolygwyd gan gymheiriaid ar ffurfio hunaniaeth Fwdhaidd mewn plant yn eu harddegau ac mae'n parhau i ymchwilio i apêl myfyrdod yn y Gorllewin. Ar hyn o bryd mae'n darlithio mewn 'Living Buddhism' a 'Religious Individualization' yn y Claremont School of Theology, California ac mae'n uwch gymrawd ym Mhrifysgol Bishop Grosseteste University, Lincoln. Ei lyfr academiaidd diweddaraf yw The Intuitive Buddhist (Peter Lang, 2020).

Beth all Cyfrifiad 2021 ei Ddweud wrthym *Mewn Gwirionedd* am Gyfansoddiad Crefyddol Cymru a Lloegr?

Leslie J. Francis

Mae'r erthygl hon yn tynnu ar y prif ystadegau o'r cwestiwn am grefydd yng nghyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr er mwyn archwilio'r hyn y gellir a'r hyn na ellir ei gasglu o'r ystadegau hyn, ac i archwilio pam mae'r cwestiwn am grefydd yn parhau i fod yn rhan bwysig o fapio 'cyflwr cymdeithasol a sifil' y boblogaeth yn yr 21ain ganrif. Mae cynnwys y cwestiwn hwn yn y cyfrifiad yn dystiolaeth o arwyddocâd cyhoeddus parhaus crefydd.

*Cysylltiadau â'r fanyleb:
(fel cefndir i)*

*AQA Adran 2 Astudiaeth o grefydd a deialogau 2B Cristnogaeth: Cristnogaeth a her seciwlaeriaeth, Cristnogaeth, mudo a phlwrailiaeth grefyddol
EDEXCEL Papur 4, Opsiwn 4B Cristnogaeth: Testun 4.2 Seciwlareiddio a) Crefydd yn y gymdeithas heddiw, niferoedd yn gostwng; Testun 6 Crefydd a chymdeithas, 6.1 Plwrailiaeth ac amrywiaeth a) Realiti cymdeithasegol cymdeithasau amlddiwylliannol
OCR 2c. Cynnwys Datblygiadau Mewn Meddwl Crefyddol (H573/03–07): 6 Her Seciwlaeriaeth*

Cyflwyniad

Prif ffigurau

Mae'r prif ffigurau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022) yn ymddangos ar yr olwg gyntaf yn amlwg. Mae'r cwestiwn ar ffurflen y cyfrifiad yn edrych yn glir. Mae'n gofyn y cwestiwn syml 'Beth yw eich crefydd?', gan ychwanegu 'Mae'r cwestiwn hwn yn wirfoddol'. Dilynnir y cwestiwn gan yr wyth opsiwn canlynol (yn y drefn yma):

- Dim crefydd
- Cristnogaeth (pob enwad)
- Bwdhaeth
- Hindŵaeth
- Iddewiaeth
- Islam
- Sikhiaeth
- Unrhyw grefydd arall, ysgrifennwch.

Y Cwestiwn Crefydd yn y Cyfrifiad

Yn 2021, y prif ffigurau ar gyfer Cymru a Lloegr wedi'u hystyried gyda'i gilydd o'r mwyaf i'r lleiaf, oedd:

- Cristnogaeth 46.2%
- Dim crefydd 37.2%
- Islam 6.5%
- Hindŵaeth 1.7%
- Sikhiaeth 0.9%
- Arall 0.6%
- Iddewiaeth 0.5%
- Bwdhaeth 0.5%
- Wedi gwrthod ateb 6.0%

Prif dueddiadau

Cyflwynwyd y cwestiwn crefydd i gyfrifiad Cymru a Lloegr am y tro cyntaf yn 2001, ac ailadroddwyd yr un cwestiwn yn 2011 a 2021. Mae hyn yn caniatáu i dueddiadau gael eu hadnabod. Dyma'r prif dueddiadau ar gyfer y cyfnod o ddeng mlynedd rhwng 2011 a 2021:

- Gostyngodd y gyfran a nododd Cristnogaeth o 59.3% i 46.2%, gostyngiad o 13.1%.
- Cynyddodd y gyfran a nododd dim crefydd o 25.2% i 37.2%, cynnydd o 12.0%.
- Cynyddodd y gyfran a nododd Islam o 4.9% i 6.5%, cynnydd o 1.6%.
- Cynyddodd y gyfran a nododd Hindŵaeth o 1.5% i 1.7%, sef cynnydd o 0.2%.

(Yn 2001 roedd y gyfran a nododd Cristnogaeth yn 71.7%, tra bod y gyfran a nododd dim crefydd yn 14.8%.)

Prif gymhariaeth

Er bod y tueddiadau allweddol yng Nghymru a Lloegr yn mynd i'r un cyfeiriad, roeddent yn gryfach yng Nghymru nag yn Lloegr:

- Roedd gan Gymru ostyngiad mwy yn nifer y bobl a ddywedodd eu bod yn

'Gristnogion', o 57.6% yn 2011 i 43.6% yn 2021, sef gostyngiad o 14.0%, o gymharu â gostyngiad o 13.1% ar gyfer Lloegr (o 59.4% i 46.3%).

- Roedd gan Gymru fwy o gynnydd yn nifer y bobl a ddywedodd 'dim crefydd' o 32.1% yn 2011 i 46.5% yn 2021, sef cynnydd o 14.5%, o'i gymharu â chynnydd o 12.0% ar gyfer Lloegr (o 24.7% i 36.7%).

Mewn geiriau eraill, tra bod y grŵp mwyaf yng Nghymru a Lloegr gyda'i gilydd wedi parhau fel 'Cristnogaeth' ar 46.2%, y grŵp mwyaf yng Nghymru bellach oedd 'dim crefydd' ar 46.5%.

Cwestiynau allweddol

Fodd bynnag, efallai bod y prif ystadegau hyn yn codi mwy o gwestiynau nag yr ymddengys eu bod yn eu hateb. Y materion allweddol y mae angen inni eu harchwilio nawr yw:

1. Beth sy'n cyfrif fel crefydd yn y cyfrifiad?
2. Beth yw'r diffygion gyda'r cwestiwn crefydd yn y cyfrifiad?
3. Sut ydyn ni i ddehongli'r ymatebion 'dim crefydd'?
4. Pam mae cwestiwn am ymlyniad at grefydd o fudd i'r cyhoedd?

Beth sy'n cyfrif fel crefydd yn y cyfrifiad?

Cyflwynwyd cwestiwn am grefydd i'r cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr am y tro cyntaf yn 2001, ac nid heb lawer o ddadlau (gweler Sherif, 2011). Fe'i cyflwynwyd oherwydd ei bod yn dod yn fwyfwy amlwg bod crefydd yn parhau i fod yn elfen allweddol o hunaniaeth gymdeithasol. Nid oedd yn bosibl mapio anghydraddoldebau cymdeithasol heb gymryd crefydd i ystyriaeth. Roedd yn ddadleuol oherwydd bod crefydd yn fater

Y Cwestiwn Crefydd yn y Cyfrifiad

cymhleth, a byddai rhai yn dadlau ei fod yn fater hynod bersonol nad oes gan y wladwriaeth hawl i ymholi iddo.

Y pwynt craidd i'w gydnabod yw mai cwestiwn am *ymlyniad crefyddol* yw'r cwestiwn crefydd yn y cyfrifiad. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022) yn diffinio ymlyniad crefyddol fel y grefydd y mae pobl yn uniaethu â hi, yn hytrach na'u credoau neu arferion. Yn yr ystyr hwn mae'r syniad ymlyniad crefyddol yn cael ei weld *fel rhan o hunaniaeth gymdeithasol*, fel oedran, rhyw ac ethnigrwydd. Mae ymlyniad crefyddol yn fater o bryder cyhoeddus a chymdeithasol ac mae'n berthnasol i greu cymdeithasau teg a chyfiawn - cymaint ag oedran, rhyw ac ethnigrwydd. Cyflwynwyd y cwestiwn ethnigrwydd i gyfrifiad Cymru a Lloegr am y tro cyntaf ym 1991, a chyflwyno'r cwestiwn ethnigrwydd hwn a ysgogodd i raddau grwpiau lleiafrifol i bwyso am gynnwys y cwestiwn crefyddol. I rai, roedd teimlad bod hunaniaeth grefyddol yn bwysicach na hunaniaeth ethnig wrth lunio pwy ydyn nhw mewn gwirionedd a beth sy'n wirioneddol bwysig iddyn nhw.

Mewn cyferbyniad, mae cred grefyddol ac arfer crefyddol yn perthyn i'r tir personol a phreifat. Maent hefyd yn hanfodol wrth lunio hunaniaeth bersonol. Ond, fel cred wleidyddol ac arfer gwleidyddol, mae'n iawn i bobl ofyn am gael eu hamddiffyn rhag rhai mathau o graffu cyhoeddus.

Mae gwyddonwyr cymdeithasol wedi cydnabod ers tro bod ymlyniad crefyddol yn fesur procsi digon tila ar gyfer cred grefyddol ac arfer crefyddol. Mae'n gwbl resymol i bobl hawlio eu hunaniaeth gymdeithasol fel Cristnogion heb gymryd rhan mewn arfer crefyddol (er enghraifft mynychu'r eglwys) a heb arddel credoau crefyddol (er enghraifft cred yn Nuw). Ar yr un pryd, mae'n gwbl resymol i bobl honni eu bod heb ymlyniad at unrhyw

grefydd ac eto maent yn cymryd rhan mewn arferion crefyddol (er enghraifft gweddi) ac yn arddel credoau crefyddol (er enghraifft cred yn Nuw). Mae'r rhain yn bwyntiau hollbwysig i'w cadw mewn cof wrth ddehongli allbwn ystadegol o'r cyfrifiad.

Beth yw'r diffygion gyda'r cwestiwn crefydd yn y cyfrifiad?

Mae chwe phenbleth uniongyrchol yn cael eu gosod gan y cwestiwn crefydd yn y cyfrifiad. Pam fod y cwestiwn crefydd yn wirfoddol? Pam na ofynnir yr un cwestiwn yn yr Alban a Gogledd Iwerddon? Pam fod y rhestr o grefyddau yn gyfyngedig i chwech? Pam nad yw enwadau Cristnogol yn cael eu gwahaniaethu? Beth am fydolygon? Sut ydyn ni i ddehongli'r ymatebion lle'r oedd lle i ysgrifennu?

Y cwestiwn gwirfoddol

Gwnaed nifer o ymdrechion i rwystro cyflwyno cwestiwn am grefydd i gyfrifiad 2001. Ymhlith yr ymdrechion hyn roedd yr awgrym bod deddf cyfrifiad 1920 yn benodol yn atal gofyn am ymlyniad crefyddol. Roedd y Ddeddf yn darparu ar gyfer cwestiynau am 'gyflwr cymdeithasol a sifil' y boblogaeth. Dywedodd cangen ddeddfwriaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol nad yw 'sifil' na 'cymdeithasol' yn cwmparu'r syniad o grefydd. Yn benodol, diffinnir 'sifil' fel 'seciwlar' neu 'an-eglwysig' ac mae 'cymdeithasol' yn berthnasol 'yn fwy i bethau daearol na nefol' (gweler ymhellach Francis, 2003, t. 49). Yn dilyn ymgyrch ar y cyd gan gymunedau ffydd, cymerodd y llywodraeth yr opsiwn o ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol er mwyn sicrhau cyfreithlondeb cynnwys y cwestiwn crefydd yng nghyfrifiad 2001. Roedd nodi bod y cwestiwn yn wirfoddol i'w weld yn ffordd o osgoi dadlau pellach (neu o ddryllio defnyddioldeb y data).

Y Cwestiwn Crefydd yn y Cyfrifiad

Beth am Ogledd Iwerddon a'r Alban?

Yr ateb syml yw bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gyfrifol am Gymru a Lloegr, tra bod cyfrifoldeb am Ogledd Iwerddon a'r Alban yn dod o dan ddwy awdurdodaeth arall ar wahân: Cofnodion Gwladol yr Alban ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon. Mae cwestiwn am grefydd wedi'i hen sefydlu yng Ngogledd Iwerddon ac mae'n cynnig gwahaniaethiad agos rhwng enwadau Cristnogol. Cyflwynwyd y cwestiwn crefydd i'r Alban ar yr un pryd ag i Gymru a Lloegr (2001) ac roedd yn gwahaniaethu rhwng tair ffrwd Gristnogol: Eglwys yr Alban, yr Eglwys Gatholig a 'Christnogaeth arall, ysgrifennwch isod'.

Pam cyfyngu i chwe chrefydd?

Roedd yr Is-grŵp Ymlyniad Crefyddol a drefnodd yr achos dros gynnwys y cwestiwn crefyddol yn 2001 yn cynnwys lleisiau a oedd yn dod o nifer o draddodiadau ffydd. Yn benodol, pleidiwyd yr achos dros gynnwys naw traddodiad (yn golygu ychwanegu Baha'i, Jainiaeth a Zoroastrianiaeth). Fel y digwyddodd, enillwyd yr achos gan y ddadl i arbed lle ar ffurflen y cyfrifiad. Er hynny, mae'r broblem yn dal i fodoli y gallai crefyddau nad ydynt wedi'u rhestru ar ffurflen y cyfrifiad gael eu tangyfrif, gan y gallai ymatebion testun agored fod yn llai hawdd i rai cyfranogwyr.

Beth am isrannu enwadau Cristnogol?

Cynigodd yr Is-grŵp Ymlyniad Crefyddol chwe dadl ynghylch pam y byddai'n gamgymeriad *peidio* ag isddosbarthu'r categori Cristnogol (fel sy'n digwydd yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban). Mae'r prif resymau am hyn yn ymwneud â'r gwahanol ddewisiadau ffordd o fyw sydd wedi'u cwmpasu'n bendant o fewn ymlyniad Cristnogol gweddilliol (gweler Francis, 2003, t. 53). Felly, gall

gwerthoedd cymdeithasol Catholigion nad ydynt yn mynd i'r eglwys a Bedyddwyr nad ydynt yn weithredol fod yn dra gwahanol, er enghraifft o ran erthyliad ac yfed alcohol. Cafodd yr achos dros isrannu'r categori Cristnogol gefnogaeth dda gan y gymuned Fwslimaidd (er nad oeddent yn dymuno isrannu ar gyfer Mwslimiaid) ond ni chafodd ei werthfawrogi'n fawr gan y gymuned Gristnogol.

Beth am fyddolgygon?

Mae'r cwestiwn crefyddol yn y cyfrifiad wedi'i feirniadu gan rai carfanau pwyso am beidio ag ymestyn y tu hwnt i grefyddau i gynnwys systemau credoau anghrefyddol a byddolgygon eraill, gan gynnwys dyneiddiaeth ac anffyddiaeth. Ond mae'r carfanau pwyso hyn wedi anwybyddu cylch gorchwyl penodol ac union y cwestiwn am grefydd sy'n ymwneud ag ymlyniad crefyddol. Mae ymlyniad crefyddol wedi ennill ei le yn y cyfrifiad yn union oherwydd nad yw'n fesur o gred crefyddol.

O ran astudio cred (yn hytrach nag ymlyniad) yma y mae'n rhaid ymestyn y cynfas i gofleidio systemau credoau anghrefyddol a safbwyntiau byddolwg eraill. Mae angen i'r rhai sydd â diddordeb mewn cynnwys materion o'r fath yn y cyfrifiad ymgyrchu dros gwestiwn cred byddolwg *ochr yn ochr â'r* cwestiwn ymlyniad crefyddol. Mae angen cwestiynau ar wahân i ymdrin â materion ar wahân. Camgymeriad fyddai drysu categorïau a cheisio ymdrin ag ymlyniad a chred yn yr un cwestiwn. Fodd bynnag, byddai rhoi cwestiwn ymlyniad crefyddol a chwestiwn cred byddolwg *ochr yn ochr* yn y cyfrifiad yn ehangu ein dealltwriaeth o gymdeithas Prydain yn fawr iawn.

Sut ydyn ni i ddehongli'r ymatebion ysgrifenedig?

Dewisodd 0.7% o boblogaeth gyffredinol

Y Cwestiwn Crefydd yn y Cyfrifiad

Cymru a Lloegr ysgrifennu mewn ymateb i'r opsiwn 'Unrhyw grefydd arall'. Y prif grefyddau a gofnodwyd oedd:

- Pagan (74,000)
- Alevi (26,000)
- Jain (25,000)
- Wicca (13,000)
- Ravidassia (10,000)
- Siamaniaeth (8,000)
- Rastaffariaeth (6,000)
- Zoroastriaeth (4,000)

Dewisodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol wneud sylw ar un yn unig o'r grwpiau hyn a nododd gynnydd yn y rhai oedd yn uniaethu â Siamaniaeth o 650 yn 2011 i 8,000 yn 2021. Ni sonnir, fodd bynnag, am y 390,127 o bobl a nododd eu hunain fel Jedi yng nghyfrifiad 2001 Cymru a Lloegr. Mae'n ymddangos bod y categori hwn wedi diflannu'n gyfan gwbl o gyfrifiad 2021.

Dewisodd eraill ysgrifennu yn yr hyn y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ei ddisgrifio fel 'grŵp anghrefyddol'. Y niferoedd mwyaf yma oedd:

- Agnostig (32,000)
- Anffyddiwr (14,000)
- Dyneiddiwr (10,000)

Sut ydyn ni i ddehongli'r ymateb 'dim crefydd'?

Ni all y cyfrifiad ei hun gynnig unrhyw fewnwelediad clir i'r dehongliad o'r ymateb 'dim crefydd'. Yn ddefnyddiol, cynlluniwyd arolwg meintiol o 5,153 o oedolion yn y DU a gynhaliwyd gan YouGov ar ran Theos a Sefydliad Gwyddoniaeth a Chrefydd Faraday rhwng 5 Mai a 13 Mehefin 2021, tua mis ar ôl y cyfrifiad, i daflu goleuni ar y cwestiwn hwn. Cyflwynir canlyniadau'r arolwg hwn yn yr adroddiad *The nones: Who are they and what do they believe?* gan Waite (2022).

Nododd yr adroddiad hwn dri math neu glwstwr amlwg o bobl a ddisgrifiodd eu hunain fel 'dim crefydd', gan nodweddu'r tri math hyn fel:

- *ymgyrchwyr 'dim crefydd'*, pobl sy'n ymwybodol iawn eu bod yn anffyddwyr ac yn elyniaethus i grefydd;
- *'dim crefydd' goddefgar*, pobl sy'n anffyddwyr ar y cyfan ond yn derbyn (ac weithiau yn cynhesu tuag at) grefydd;
- *'dim crefydd' ysbrydol*, pobl a nodweddir gan ystod o gredoau ac arferion ysbrydol.

Mae'r dadansoddiad yn awgrymu niferoedd gweddol gyfartal o fewn pob un o'r tri math hyn: ymgyrchwyr 'dim crefydd' (34%), 'dim crefydd' goddefgar (35%) a 'dim crefydd' ysbrydol (32%).

Pam mae cwestiwn am ymlyniad at grefydd o fudd i'r cyhoedd?

Gosodwyd dau faen prawf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer cynnwys cwestiwn yn y cyfrifiad. Roedd y Cynllun Busnes Dangosol a gyflwynwyd gan yr Is-grŵp Ymlyniad Crefyddol yn dangos sut roedd cwestiwn crefydd yn bodloni'r ddau faen prawf (gweler Francis, 2003, tt. 51-52).

Y maen prawf cyntaf oedd 'gwybodaeth sydd ei hangen er mwyn gweithredu neu gydymffurfio â deddfwriaeth'. Nodwyd enghraifft amlwg o ddeddfwriaeth o'r fath yn adran 11 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 1993).

Yr ail faen prawf oedd gwybodaeth 'a fyddai'n arwain at fudd i'r genedl'. Roedd cwestiwn crefydd yn bodloni'r maen prawf hwn mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae ymchwil wyddonol mewn meysydd (er enghraifft) seicoleg, cymdeithaseg, gerontoleg a gofal iechyd yn tynnu sylw

Y Cwestiwn Crefydd yn y Cyfrifiad

at bwysigrwydd dangosyddion crefyddol ar gyfer ystod o ganlyniadau ymarferol, gan gynnwys: y patrwm gwahanol o gymorth cymdeithasol sydd ei angen ar yr henoed crefyddol, adferiad cyflymach o salwch penodol ymhlith rhai pobl grefyddol, gwahanol batrymau cam-drin sylweddau ymhlith pobl ifanc grefyddol yn eu harddegau. Mewn geiriau eraill, gallai gwybod am ddosbarthiad crefydd o fewn cymdeithas hyrwyddo targedu adnoddau yn fwy effeithiol a dangos presenoldeb partneriaid ffres yn y ddarpariaeth.

Yn ail, mae cymunedau crefyddol eu hunain yn darparu pob math o wasanaethau yn y gymuned. Mae rhai o'r

gwasanaethau hyn yn gymharol amlwg, er enghraifft rôl cymunedau crefyddol wrth ddarparu llety gwarchod i'r henoed ac mewn gofal hosbis. Mae gwasanaethau eraill yn gymharol gudd, er enghraifft rôl cymhelliant crefyddol wrth annog gwasanaethau cymunedol gwirfoddol mewn meysydd fel darparu rhwydweithiau gofal anffurfiol. Felly, gallai gwybod am y newid yn nosbarthiad crefyddau mewn cymdeithas helpu i ragweld symudiadau o ran argaeledd a darpariaeth cynlluniau gwirfoddol, gyda goblygiadau wedyn i'r ddarpariaeth o wasanaethau statudol.

Geirfa

Mesur procsi : brasamcan.¹

Cysylltiadau â'r rhyngrwyd

Data swyddogol a dadansoddiadau ar grefydd o Gyfrifiad 2021:

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/religion/articles/religioninenglandandwales2011/2012-12-11>

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/religion/bulletins/religionenglandandwales/census2021>

<https://www.gov.wales/ethnic-group-national-identity-language-and-religion-wales-census-2021-html>

¹ Mae crefydd yn syniad cymhleth y mae angen i wyddonwyr cymdeithasol ddod o hyd i ddangosyddion hygyrch ar ei gyfer. Gall mesurau ymddygiad fel presenoldeb crefyddol a gweddi roi arwydd defnyddiol o wahaniaethau unigol mewn crefyddoldeb. Yn yr ystyr hon, mewn cymhariaeth, mae ymlyniad crefyddol yn fesur procsi *gwael* i grefyddoldeb. Mae'r cydberthynas rhwng ymlyniad crefyddol a naill ai presenoldeb neu weddi yn tueddu i fod yn isel.

Pwyntiau trafod

1. Yn eich barn chi, beth yw arwyddocâd cyhoeddus a chymdeithasol y dirywiad mewn ymlyniad crefyddol at Gristnogaeth rhwng 2011 a 2021?
2. Yn eich barn chi, beth yw arwyddocâd cyhoeddus a chymdeithasol y cynnydd mewn 'dim crefydd' rhwng 2011 a 2021?
3. Pa mor gryf yw'r achos dros gael cwestiwn crefydd yng nghyfrifiad 2031?
4. A fydddech yn cefnogi cwestiwn ar greddau bydolg yng nghyfrifiad 2031? Pam neu pam ddim?

Cyfeiriadau a darllen pellach

- Aspinall, P. (2002). Should a question on 'religion' be asked in the 2001 British census? A public policy case in favour. *Social Policy and Administration*, 34(5), 84-600.
- Fane, R.S. (1999). Is self-assigned religious affiliation socially significant? In *Sociology, theology and the curriculum* (pp. 113-124). Ed. L.J. Francis, London: Cassell.
- Francis, L.J. (2003). Religion and social capital: The flaw in the 2001 census in England and Wales. In *Public faith: The state of religious belief and practice in Britain* (pp. 45-64). Ed. P. Avis. London: SPCK.
- Office for National Statistics (2022). *Statistical bulletin: Religion, England and Wales: Census 2021*. London: Office for National Statistics.
- Sherif, J. (2011). A census chronicle: Reflections on the campaign for a religious question in the 2001 census for England and Wales. *Journal of Beliefs and Values*, 32, 1-18.
- Voas, D., & Bruce, S. (2004). Research note: The 2001 Census and Christian identification in Britain. *Journal of Contemporary Religion*, 19, 23-28.
- Waite, N. (2022). *The nones: Who are they and what do they believe?* London: Theos.

Y Parch Ganon Athro Leslie J. Francis yw Cyd-gyfarwyddwr Uned Ymchwil Crefyddau'r Byd ac Addysg, Prifysgol yr Esgob Grosseteste, Lincoln. Gellir cysylltu ag ef yn leslie.francis@warwick.ac.uk.